

# AWEL

## CYFLE I FUDDSODDI MEWN FFERM WYNT GYMUNEDOL

Ymwelodd deg aelod ar hugain o Gydweithfa Awel y safle i weld y cynnydd ar y fferm wynt gymunedol sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd ar y Gwrhyd, 20 milltir i'r gogledd o Abertawe.

Yr aelod hynaf oedd Eric Bowen 84 mlwydd oed a gafodd ei fagu ar y Gwrhyd ac wedi gweithio ar hyd ei oes yn y pwll glo brig yn Nhairgwaith, yn agos i'r fferm wynt. Dywedodd Eric, "Bûm yn arfer cerdded ar yr holl lwybrau hyn pan oeddwn yn fachgen. Rwy'n edrych ymlaen at weld y tyrbinau i fyny ar y mynyddoedd yn cynhyrchu pŵer glân ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mwynheais drafod agweddau technegol y tyrbinau gyda'r peirianwyr ar yr ymweliad."

Dywedodd Sioned Haf a Mair Craig, dwy sydd wedi buddsoddi yn y gydweithfa (Co-op), "Roedd hi'n hyfryd bod allan yn yr awyr iach. Mae'n safle gwych ar gyfer tyrbinau gwynt ac mae'n dda gwybod mai ein cydweithfa gymunedol ni sy'n berchen arnynt."

Mae'r gydweithfa newydd yn ail-agor ei Chynnydd i alluogi pobl i fuddsoddi yn ystod y gwaith adeiladu. Mae'r gydweithfa yn anelu at godi £1,000,000 o fewn mis. Mae popeth yn mynd yn ei flaen yn dda ac rydym wedi pasio'r marc £800,000 eisoes.

Meddai Dan McCallum, un o Gyfarwyddwyr Awel, "Rydym wed

penodi cwmni lleol, *Raymond Brown Adeiladu*, i ddechrau adeiladu ym mis Mawrth ac rydym wrth ein bodd gyda'r cynnydd. Mae wedi bod yn wych i weld ansawdd y gwaith. Bellach mae gennym 370 o aelodau ac rydym yn gobeithio bydd llawer mwy yn ymuno â ni. Yn y dyfodol, bwriadwn drefnu ymweliadau rheolaidd i'r safle gan fod pawb wedi mwynhau."

Mae'r Cynnydd ar agor tan fis Mehefin 15fed a rhagwelir cyfradd llog o 7%.

Cyfranddaliadau ar gael o £50 ac fel co-op, pob aelod hawl i un bleidlais, heb ystyried faint o gyfranddaliadau maent yn berchen.

Rydym am i fwy o bobl i ymuno â'r cwmni cydweithredol a rhannu'r cyffro o fod yn rhan o rywbeth cadarnhaol. Cofrestrwch i gael rhagor o wybodaeth ar ein gwefan [www.awel.coop/?lang=cy](http://www.awel.coop/?lang=cy)

Bydd y prosiect yn gosod dau dyrbin Enercon ar Fynydd y Gwrhyd 20 milltir i'r gogledd o Abertawe. Byddant yn cyflenwi digon o ynni glân ar gyfer rhyw 2500 o gartrefi.

Mae'r prosiect yn cael ei gefnogi gan Paul Thorburn, seren rygbi Cymru; Gillian Clarke, cyn Fardd Cenedlaethol Cymru; a Paul Allen o'r Ganolfan Ynni Amgen.



60 mlynedd yn ôl i'r flwyddyn nesaf bu farw Islwyn Williams, y storiwr o Ystalyfera. 70 mlynedd yn ôl i eleni cyhoeddodd ei gyfrol gyntaf o straeon byrion, sef *Cap Wil Tomos*.

'*Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog*' - dylem ddal ar bob cyfle i ddathlu – nid oherwydd gwerth hanesyddol y cofio yn unig ond gan fod y gorffennol yn sail i adeiladu arno i'r dyfodol.

Mae i'n bro gyfoeth diwylliannol a llenyddol. Tybed nad Craig Cefn Parc yw'r unig fynwent yng Nghymru lle y gorwedd tri chyn-Archdderwydd, sef Crwys, J. J. Williams a Dafydd Rowlands. Ar lethrau llwm Mynydd y Gwair y ganwyd Dyfnallt ac nid nepell oddi yno magwyd Eic Davies. I Bontardawe y symudodd teulu Gwenallt, a fu'n gyd-ddisgybl i Islwyn Williams yn Ysgol Sir Ystalyfera, a Kate Roberts ifanc yn athrawes arnynt. Yng Nghwm Tawe y magwyd yr Athrawon Henry Lewis, Caerwyn Williams a Thomas Jones – i enwi dim ond rhai. Ymhlith llenorion presennol y cwm y mae'r Prifeirdd Robat Powell ac Emyr Lewis, a bellach mae gennym Dŷ'r Gwrhyd i adlewyrchu ac arwain dyheadau Cymry cyfoes y cwm.

Yn ei Ragair i'r gyfrol *Licyris Olsorts* dywed Dafydd Rowlands am boblogrwydd straeon Islwyn Williams mewn print ac ar y radio.

'*I genhedlaeth fy rheini y perthynai'r storiwr o Bant-teg, ond defais innau, pan oeddwn yn grwt ...lawer o bleser o ddarlenn ei gyfrol gyntaf – a theimlo rhyw falchder – plwyfol efallai, ond iach er hynny – o sylweddoli bod yr awdur hwn wedi mentro defnyddio fel cyfrwng ei fynegiant ar donfedd ac ar bapur, yr iaith yr oeddwn i mor gyfarwydd â'i siarad ar yr aelwyd gartre ac yng nghwmni fy nghyfoedion.*

*Hunan-dyb ar fy rhan i fyddai honni bod storïau 'Licyris Olsorts' wedi rhoi'r un faint o bleser i wylwyr S4C ag y rhoddodd storïau Islwyn Willaism i wrandawyr radio'r BBC slawer dydd, ond byddai'n dda gennyf gredu eu bod yn perthyn i'r un traddodiad ac yn wilia'r un Cwmrâg.'*

Mae straeon Islwyn Williams a Dafydd Rowlands yn moli eu cymdeithas – ac yn ei beiniadu'n ysgafn lle bo angen – a thrwy hynny daethom i nabod ein hunain yn well. Ac onid dyna un o bwrsasau mawr llenyddiaeth? Dathwn ein harwyr!

**Eurig Davies**

Golygydd mis Gorffennaf/Awst

**Gareth Richards**

Newyddion i'r canlynol os gwelwch yn dda:

**Gareth Richards, Gwasg Morgannwg  
Ystad Ddiwydiannol Mynachlog Nedd  
Castell-nedd, SA10 7DR**

neu e-bost [dewiannette@gmail.com](mailto:dewiannette@gmail.com)

**Erbyn Mehefin 20fed 2016 os gwelwch yn dda.**

Ariennir *Llais* yn

rhannol gan

**Lywodraeth Cymru**

**CYMRAG**

## CLODDIAU

Yn ôl y bardd Americanaidd Robert Frost "Mae ffens da yn gwneud cymdogion da".

Pendroni ar y llinell hon oeddwn wrth i mi sylwi ar glawdd cerrig ar Fynydd Carn Llechart. Ar hyd yr ucheldir yma ceir nifer o gloddiau cerrig wedi eu codi yn gelfydd iawn. Fel arfer mae cloddiau cerrig yn adlewyrchu natur y tir y maent wedi eu hadeiladu arno. Os oes creigiau caled yn brigo i'r wyneb yna waliau cerrig yn anad dim arall a welir. Mewn ardaloedd lle mae'r graig yn feddal fe geir cloddiau o gerrig wedi eu gorchuddio â phridd neu berthi neu wrychoedd. Er enghraifft, yn siroedd dwyreiniol a chanolbarth Cymru ceir carreg feddal Silwraidd ac felly nodwedd y tirlun yw gwrychoedd a chloddiau pridd. Yn siroedd Brycheiniog, Gwent, Morgannwg a Gŵyr cloddiau cerrig cywrain o dywodfaen coch (*red sandstone*) a'r galchfaen (*limestone*) a welir. Os am fentro i'r gogledd yna crawiau llechi (*slate*) sy'n nodweddu rhai o gloddiau ardaloedd chwarelyddol megis Blaenau Ffestiniog a Llanberis.

Os am weld amrywiaeth o gloddiau o ran y garreg ac o ran adeiladwaith, yna Eryri yw'r lle gorau i fynd iddo. Yma ceir cloddiau sydd yn gymysgedd o lechfeini a cherrig igneaidd. Wrth gwrs fe gyfyd y cwestiwn pryd a phaham y codwyd y cloddiau yn y lle cyntaf? Y pwrpas pennaf, mae'n siwr, oedd i gau tir er mwyn ei ddefnyddio ar gyfer amaeth. Daw'r gair 'cau' a 'chae' o'r un gwreiddyn a'r pwrpas oedd i greu tir un ai i gadw anifeiliaid i merion neu allan. Mewn sawl ardal ceir hanesion mai carcharorion rhyfel o Ffrainc neu cyn-filwyr Rhyfeleodd Napoleon a'u cododd. Mewn ardaloedd eraill credir mai Gwyddelod a orfodwyd i ffoi rhag y newyn yn sgîl y clwy tatws (*potato blight*) yn Iwerddon yn 1845 a gododd nifer o'r cloddiau.

Mae'r cloddiau cerrig yma yn gallu bod yn gynefin neu'n gynefinoedd yn eu hunain. Ceir un ochr sydd yn wynebu'r haul tra bo'r llall yn cynnig cysgod. Mae pen y clawdd yn gallu bod yn nannedd y gwynt tra bo'r seiliau yn gallu bod yn llawer mwy cysgodol a sych. Nodwedd arall y cloddiau yma yw eu bod yn gallu bod yn gynefin pwysig ar gyfer gwahanol fathau o gen (*lichen*). Prin iawn y gwelwch glawdd cerrig lle nad oes unrhyw fath o gen arno.

Mae'r cloddiau yn gallu bod yn lloches diogel ar gyfer llygod, cwingod gwenci (*weasel*), carlwm (*stoat*) a ffwlbart (*polecat*). Maent hefyd yn gallu bod yn llefydd da ar gyfer nadroedd a madfallod. Gall y cloddiau cerrig hefyd ddarparu safleoedd nythu ar gyfer tinwen y garn (*wheatear*), y dylluan fach (*little owl*) a'r dryw (*wren*). Ar Ynys Enlli mae'r cloddiau sy'n gymysg o bridd a cherrig yn safleoedd nythu pwysig ar gyfer adar drycin Manaw (*manx shearwater*).



Wedi cyfnod o esgeulustod yn ystod yr ugeinfed ganrif lle bu i nifer o'r cloddiau gael eu chwalu i greu caeau mwy o faint neu er mwyn adeiladu ffens i gadw anifeiliaid yn eu lle daeth tro ar fyd. O 1992 ymlaen cynigiwyd grantiau Tir Cymen, Tir Gofal a Glastir er mwyn adfer y cloddiau. Cafwyd hefyd gynlluniau arbennig gan y Parciau Cenedlaethol i adfer rhai o'r waliau traddodiadol. Cydnabyddiaeth oedd hyn o bwysigrwydd y waliau nid yn unig fel elfennau yn y tirlun ond hefyd eu pwysigrwydd fel cynefinoedd naturiol i fywyd gwyllt.

Nodwedd amlwg arall i un fel fi sydd yn hoff o gerdded yr ucheldir yw bod clawdd cerrig yn rhoi tipyn mwy o gysgod na ffens weiren. Does dim byd gwell i'w wneud weithiau na gorwedd wrth droed clawdd yng nghanol mis Mai i gael hoe fach yn yr haul. Mae clawdd caerrig hefyd yn llawer mwy cynaliadwy na ffens weiren. Os amcangyfrifir bod rhai o'n waliau cerrig wedi sefyll am oddeutu 200 mlynedd yna fe fyddai galw i adnewyddu ffens weiren oddeutu wyth gwaith yn yr un cyfnod. Hir oes i gloddiau ein gwlad.

# POBOL Y CWM ISLWYN WILLIAMS

## Y STORIWR O YSTALYFERA (1903-1957)

Yng ngeiriau Islwyn Williams ei hun:

*'Yn 1940 yr ysgrifennais fy stori gyntaf, 'Yr Alltud'. Treio fy llaw ar stori yn adran rhyddiaith Eisteddfod Eglwysi Annibynnol Godre'r Mynydd Du. Enillodd hi ddim, ond danfonais hi at Mr Rowland Hughes yn y BBC. Bu'n garedig iawn ac fe'i darllenwyd.'*

Cyhoeddodd Islwyn Williams ddwy gyfrol o straeon byrion, sef *Cap Wil Tomos* (1946) a *Storïau a Phortreadau* (1954). Mewn sgwrs gyda Saunders Lewis yn y gyfres radio 'Cornel y Llenor' yn 1947 dywed Islwyn Williams mai darlun o Gwm Tawe genhedlaeth cyn cyfnod ysgrifennu'r straeon a gawn yn ei waith : *'Yn fras, Cwm Tawe fy mebyd a'm llencyndod ydyw (tua'r 1920au), pan oedd fy mrawd yn löwr a minnau, trwy ei gynhorthwy ef, yn yr Ysgol Sir. 'Does dim rhyfedd yn hyn, wrth gwrs, oblegid deunydd crai'r storiwr yn aml yw argraffiadau'r bywyd cynnar.'*



Yn straeon Islwyn Williams, profwn natur cymdeithas Gymraeg a Chymreig y Cwm; roedd bri mawr ar eisteddfodau a chyrddau cystadleuol, corau, bandiau a chyngherddau ac er mai pentref o lai na 2,000 o bobl oedd Ystalyfera'r cyfnod, roedd yno eglwys a chwe chapel, pob un â'i gymdeithas ddiwyllianol yn cyfarfod ar noson waith yn ogystal â chyfarfodydd y Sul. Cymdeithas lewyrchus o ran gwaith a hamdden a bortreadir gan Islwyn Williams.

Mewn teipysgrif a geir ymysg papurau Islwyn Williams yn y Llyfrgell Gendlaethol, cronicla hanes hynod Côr Mawr Ystalyfera a'i arweinydd W D Clee, a chyfeiria at y côr mewn sawl stori fer. Roedd Ystalyfera y pryd hwnnw'n nodedig hefyd am ei fandiau, ei gwmniau drama a'i gymanfaoedd canu mawreddog.

Mae'r cartrefi y cawn fynd iddynt yn y straeon yn ddigon cyfforddus o ran cysur a hanfodion bywyd; nid yw'r cymeriadau na'u teuluoedd yn dioddef o ran diffyg gwaith nac eisiau bwyd na dillad. Dywed Islwyn Williams *'na welodd Cwm Tawe erioed ddim tebyg i gyntaf eithafol y dirwasgiad yng Nghwm Rhondda a manau cyffelyb... Fe fu yma gyfnodau o ddiweithdra achlysurol, ond welwyd mo'r cwm ar ei hyd yn hollol ddiymadferth ...fel Cwm Rhondda ar ei waethaf.'*

Pan gynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Llandybïe yn 1944, sef y gyntaf wedi'r toriad a achoswyd gan yr ail ryfel byd, 'Tro yn yr Haul' o waith Islwyn Williams oedd y stori fer fuddugol. Wedi'r rhyfel, roedd pawb yn awyddus i ailafael yn hapusrwydd yr hen gymdeithas a fodolai yn ystod eu hieuenctid, a dyna'r cyfnod a ddarlunir yn straeon Islwyn Williams. Drwy flynyddoedd y rhyfel, bu dogni ar bopeth, gan gynnwys hiwmor a llawenydd, ac mae'r straeon yn ymgais fwriadus i adfer hynny. Drwy wreiddio'i straeon ym mlynnyddoedd ei fachgendod roedd Islwyn Williams yn pontio'n naturiol â chyfnod cyn chwalfa fawr y rhyfel. Yn ystod y blynyddoedd wedi'r rhyfel, roedd cyfresi radio cynnar fel *'Stori Nos Sadwrn'* yn gyfrwng perffaith i ddefnyddio straeon byrion

rhai o awduron gorau'r cyfnod, gan gynnwys Islwyn Williams.

Wrth i ddarlledu Cymraeg ofyn am fwy o ddeunydd, comisiynwyd straeon, sgriptiau a rhaglenni nodweddiadol wrth Islwyn Williams ar gyfer y radio. Mae'n anodd i ni heddiw yn oes y teledu a dulliau cyfathrebu aml-gyfrwng ddychmygu'r pwysigrwydd a roddid gynt i'r radio fel ffynhonnell newyddion, diwylliant ac adloniant. Dechreuwyd darlledu cyhoeddus yn y Gymraeg yn 1923 o Gaerdydd, yn 1924 o Abertawe ac yn 1935 o Fangor. Yn 1937 sefydlodd y BBC y 'Welsh Regional Programme' a ddaeth yng Ngorffennaf 1945 yn 'Welsh Home Service'. Cafodd llawer o awduron Cymraeg, Islwyn Williams yn eu plith, gyfle drwy ddyfodiad y radio a'r angen am raglenni Cymraeg i ddatblygu eu crefft a'u dawn.

Mae'r portread radio 'Gwraig y Glôwr' yn nodweddiadol o hiwmor Islwyn Williams: mae Jane a Twm yn cyfarfod am y tro cyntaf mewn eisteddfod gapel ac mae Jane braidd yn bigog am fod ei côr hi wedi colli yn y gystadleuaeth i gôr Twm:

Twm: *Wedi colli, ife?*

Jane: *Pwy?*

Twm: *Y'ch côr chi.*

Jane: *Fel y'ch chi'n gw'pod?*

Twm: *Wel, d'y'ch chi ddim yn perthyn i'n côr ni.*

Jane: *Hyh! Wfft i shwd gôr!*

Twm: *Wel, ni 'nillws, ta p'un.*

Jane: *Chi gas y wobor, chi'n feddwl.*

Twm: *Wel, yr un peth yw e, nace fe?*

Jane: *O diar, nace! Ma' byd o wahanieth rhwng ennill a cha' l y wobor, yn enwetig o dan feiriniad fel Moc Bach y Baswr.*

Twm: *Hei, watshwch beth y'ch chi'n dweud, 'merch i. Mae Moc yn perthyn i fi, cofiwch!*

Jane: *Mae e'n perthyn i chi gyd allwn i feddwl!*

Yn 'Gwraig y Glôwr' gwelwn fod teimladau'n bwysicach nac egwyddorion: mae Twm yn awyddus i fynd i ddadlau dros ddod â'r streic i ben, gan ddweud bod yn rhaid i gymdeithas wynebu ffeithiau. Ond Jane sy'n torri'r ddadl drwy dweud mai *Nid gwynepu ffeithiau sy'n bwysig, ond gwynepu dyn'on y lle 'ma ar ôl hyn.*

Tensiynau eisteddfodol eto yw deunydd drama fer 'Y Cystadleuydd' lle gwelwn dad yn ceisio dylanwadu ar y beirniad cyn i'w ferch ganu unawd, a mam yn rhoi pryd o dafod yn gyhoeddus i feirniad ar ôl i'w mab 'ga'l cam'.

Yr hyn a wna Islwyn Williams yw defnyddio digwyddiadau pob dydd – yn y cartref, yn y capel, yn y gwaith, mewn eisteddfod a chymanfa i ddweud gwirioneddau cyffredinol amdanom fel pobl. Drwy ddoniolwch y straeon sylweddolwn ein gwendidau: ein natur genfigenus, eich hawch am glod a chanmoliaeth, a'n balchder.

Yn y ddwy gyfrol cawn lu o straeon doniol am 'Y Drwmwr', 'Yr Arbenigwr', 'Y Blaenor', 'Moc Hawdamor' a chymeriadau digri eraill, ond yr enwocaf, siwr o fod, yw 'Cap Wil Tomos' (1946). Mae Wil, mab Ifan a Jane Tomos o bentref Aber-twrch, wedi'i ddewis i chwarae rygbi dros Gymru. Mae'r tad yn eithriadol falch o hynny, ac mae Jane, er yn amharod iawn i gefnogi gêm mor arw ac amharchus â 'ffwtbol' yn araf ddod i werthfawrogi camp ei mab ar y maes rygbi, yn enwedig wedi iddo gael ei ddewis i gynrychioli ei genedl. Mae Jane yn mynd at i weu pâr o sane i gadw Wil yn dwym yn ei gêm ryngwladol gyntaf. Unig fantais hyn oll oedd mai glas oedd dewis liw Jane ar gyfer y sanau, ac er i Ifan ei dwrddio gan ddweud mai coch ddylai'r lliw fod, mae Wil, o barch at ei fam, yn gwisgo'r sanau glas yn ei gêm fawr gyntaf ... *a dyna pam o'dd sane coch 'da pob un o 'wharwyr Cymru y diwyrnod 'ny – ond Wil. Ys dywed Jane Tomos wrth honco s'da fi y nosweth 'ny: "Wy'n fford iawn o nefi blŵ, yn enwetig i ddyn'on."*

## Amlddiwylliannaeth ac Amlieithrwydd yn y cwm ganrif yn ôl

Trwy gyfrwng trafodaethau a gynhaliwyd ar-lein, mewn print ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus ar draws Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, trafodwyd sefyllfa gyfoes Cymru a'r iaith Gymraeg gan yr academyddion Daniel Williams, un o drigolion yr Alltwn, a Simon Brooks ac eraill. Yn y trafodaethau hyn, pwysleisiwyd yr angen am greu Cymru newydd, mwy goddefgar, ble mae pwysigrwydd hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg yn cael ei adnabod ond heb amharu ar hunaniaethau grwpiau eraill neu'u hieithoedd. Pwysleisiodd Daniel a Simon syniadau gwahanol, gan gynnwys amlddiwylliannaeth (*multiculturalism*), amlieithrwydd (*multilingualism*), a goddefgarwch (*toleration*) tuag at bobloedd eraill sydd wedi mudo i Gymru ac wedi ymgartrefu yma.

Mewn blog a gyhoeddwyd ym mis Ebrill, esboniodd Daniel ddau drosiad sydd wedi cael eu defnyddio'n aml yn y trafodaethau ar amlddiwylliannaeth. Y cyntaf yw'r 'pair tawdd' (*melting pot*) ble mae pobloedd yn dod at ei gilydd, yn colli eu nodweddion unigryw ac yn dod i greu diwylliant cyffredin newydd. Yr ail drosiad yw'r 'fowlen salad' ble mae cynhwysion gwahanol, sef pobloedd a'u diwyllianau, yn bodoli ochr-yn-ochr â'i gilydd heb gollu eu nodweddion penodol. Yn ôl Daniel, nid yw Cymru yn un o'r cynhwysion yn y pair neu'r fowlen, i gael ei chymysgu a'i chymathu â chynhwysion eraill ond, yn hytrach, mae Cymru yn bair neu yn fowlen ei hun, ble mae pobloedd gwahanol, a'u diwyllianau, yn bodoli ochr-yn-ochr, mewn goddefgarwch, ond heb gollu eu hunigrywder. Mae'n dadlau, 'Nid grŵp ethnig, neu hil mo'r Cymry yn y weledigaeth yma, ond cenedl amddiwylliannol yn ei thermau ei hun, a all gynnwys Cymry Iddewig, Cymry Affricanaidd, y Sipsiwn Cymreig ac yn y blaen.'

Yn annisgwyl, codwyd materion tebyg yng Nghwm Tawe ganrif yn ôl. Mewn trafodaethau yn y wasg am y Sbaenwyr a ymgartrefodd yn Abercraf ar droad yr ugeinfed ganrif, cyflêwyd rhai o'r un themâu a syniadau sydd wedi bod mor ganolog i'r trafodaethau diweddar ar Gymru gyfoes yn yr unfed ganrif ar hugain. Daeth llawer o Sbaenwyr Abercraf i Gymru am y tro cyntaf ym 1900. Daethant o Wlad y Basg i Ddowlais yn y flwyddyn honno oherwydd y cysylltiadau a fodolai ar y pryd rhwng rheolwyr cwmni haearn Orconera yn Barakaldo, Gwlad y Basg, ar yr un llaw, a Chwmni Haearn Dowlais, ar y llaw arall, oherwydd y diweithdra yn Sbaen a diffyg gweithwyr medrus yn Nowlais. Symudodd rhai teuluoedd o Ddowlais i Abercraf yn y blynyddoedd dilynol i weithio ym mhyllau glo International, Gwaun-y-Clawdd ac Abercraf.

Roedd yr Abercraf Colliery Company yn berchen ar y pyllau glo hyn ar y pryd ac, yn y blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, fe recriwtiwyd gweithwyr o Ffrainc, Gwlad Belg, yr Almaen, a Phortiwgal, yn ogystal â Chymry, Saeson, Albanwyr a Gwyddelod, a mwy o Sbaenwyr i fynd gyda'r rhai a ddaeth o Ddowlais ychydig flynyddoedd ynghynt. Erbyn 1913, ymgartrefodd tua 250 o Sbaenwyr yn Abercraf a disgrifiwyd y pentref fel y gymuned fwyaf cosmopolitaidd yn yr ardal ar y pryd.

Nid oedd y berthynas rhwng y gweithwyr newydd a thrigolion Abercraf a'r cyffiniau'n hollol esmwyth yn y cyfnod hwn a chafwyd rhywfaint o drafferth ym 1914 a 1915 wrth i bobl

leol orymdeithio i fynegi eu gwrthwynebiad iddynt. Mewn areithiau a datganiadau yn y wasg, gwnaethpwyd honiadau bod y tramorwyr yn cael eu cyflogi ar draul pobl leol, bod eu diffyg Cymraeg neu Saesneg yn peryglu diogelwch gweithwyr dan ddaear, bod y gweithwyr o Sbaen yn anfodlon ymuno ag undeb llafur y glowyr, bod y glowyr Sbaenaidd yn cael y llefydd haws (a mwy cynhyrchiol ac uchel eu cyflogau) tan ddaear oherwydd eu diffyg sgiliau, bod y tramorwyr yn byw mewn tai gorlawn mewn ffordd anfoesol, eu bod nhw'n gamblo ar y Sul, eu bod nhw'n Gatholigion neu, yn waeth byth, yn anffyddwyr.

Mae'r cyhuddiadau hyn yn gyfarwydd i unrhyw hanesydd sydd wedi astudio ymfudo yn y gorfennol – mae anwybodaeth, pryder a rhagfarn yn llawer rhy gyffredin yn y cyd-destun hwn. Ond un agwedd llawer mwy diddorol am y sylw a roddwyd i Sbaenwyr Abercraf oedd y trafodaethau ar yr iaith Gymraeg yn y cwm a gynhaliwyd yn nhudalennau papur newydd *Y Darian*. Mewn cyfres o lythyron at *Y Darian*, dadleuodd 'Gwdihw', 'Sguthan', 'Barcud Craig-y-Nos', a'r 'Fwyalchen', oll yn golofnwyr a llenorion o'r cwm, dros arwyddocâd a chanlyniadau presenoldeb y Sbaenwyr ar yr iaith Gymraeg yn y cwm.

Mewn cyferbyniad â llawer yn y cwm yn eu hagweddau tuag at y Sbaenwyr, ystyriai 'Barcud Craig-y-Nos' ddyfodiad y Sbaenwyr yn gyfle i'r cwm a'r genedl fanteisio. Dadleuodd 'Barcud' yn gryf: 'nid yw nerth a chadernid cenedl yn dibynnu ar iddi gadw'n glir oddiwrth waed estronol . . . Mae nerth a chadernid cenedl, yn hytrach, yn ei ffyddlondeb i'w hiaith, ei llenyddiaeth, a'i delfrydau ei hun, fel y byddo i'r hyn sydd oreu yn ei bywyd apelio at y rhai a ddeuant i'w gwlad a dylanwadu er da arnynt.' Felly hefyd y dadleua Daniel Williams; mae iaith yn agored i unrhyw unigolyn sy'n awyddus i'w dysgu, nid yn rhywbeth caeedig, ac nid yw'r iaith Gymraeg yn rhwystr i greu cenedl amlddiwylliannol.

Anghytunai 'Gwdihw', o Goelbren, yn llwyr ac roedd ef yn benderfynol bod yr 'estroniaid' yn 'anfantais i werin weithgar ein gwlad i ennill ei bara beunyddiol'. Yn fwy diddorol, mynnodd fod 'nerth a chadernid unrhyw genedl i'w

priodoli i'w hunaniaeth a'i phurdeb yn ymgadw rhag ymgymysgu â gwaed estronol', ac roedd yn benderfynol fod y Gymraeg yn dirywio oherwydd dyfodiad y Sbaenwyr i Abercraf. Trwy rethreg hyd yn oed yn fwy dramatig, a rhagfarnllyd, ysgrifennodd 'nis gallaf chwaith ar unrhyw ystyriaeth gydnabod brawdoliaeth mewn defnyddio estroniaid i sugno ein gwaed a bwyta o fêr esgyrn ein plant.'

Yn y pen draw, gadawodd llawer o Sbaenwyr Abercraf yn y blynyddoedd a degawdau dilynol oherwydd dirwasgiadau economaidd a diweithdra, ond arhosodd eraill ymlaen yn y gymuned. Daeth rhai ohonynt i siarad Cymraeg, i fod yn aelodau blaengar o'r mudiad llafur, ac i gyd-fyw yn hapus â phobl eraill y cwm, tra dysgodd rhai Cymry Cymraeg eiriau a dywediadau Sbaeneg i'w defnyddio yn y gwaith dan ddaear. Felly, roedd gan Gwm Tawe ei amlddiwylliannaeth a'i hamlieithrwydd ei hun yn ystod dechrau'r ugeinfed ganrif a daeth yn debyg i 'fowlen salad' ble roedd gwahanol bobloedd yn byw ochr-yn-ochr â'i gilydd â'u hieithoedd a'u diwyllianau eu hunain. Gwnaethpwyd ymdrechion yn y gorfennol, fel y gwneir ymdrechion heddiw gan rai, i greu cymdeithas gaëedig, 'pur', nad yw'n croesawu 'estroniaid'. Ond, mewn cyferbyniad, ymdrechodd rhai eraill, fel y maen nhw'n gwneud heddiw, i bwysleisio amlddiwylliannaeth Cymreig a Chymraeg sy'n derbyn gwahaniaethau pobloedd eraill ond sy'n gweld y Gymraeg fel rhywbeth agored i bawb a rhywbeth croesawgar i grwpiau eraill o du allan i Gymru.

Gweler blogiau difyr Daniel Williams a Simon Brooks, sy'n trafod amlddiwylliannaeth, amlieithrwydd a materion eraill, ar: <https://nationtimecymrusydd.wordpress.com/>

Os am gysylltu: [sdt@aber.ac.uk](mailto:sdt@aber.ac.uk)



# CÆAU CWMTAWE

## LLECHART FAWR

Graig Fach • Coed cae • Graig  
Cae Cerdin Isa' ac Ucha' • Cae Cwar • Cae Bach  
Cae Gwaun Llwyd • Gwaun Llwyd • Cae dan y ty  
Cae cenol dan y ty • Cae ucha' dan y ty  
Cae isha' dan y ty • Cae pant • Cae cwm  
Cae mawr • Cae cefn • Bryn • Cae parc Hywel isha  
Cae parc Hywel ucha' • Cae newydd  
Cae waun isha ac ucha • Gwaun mân • Gwaun mera

## LLECHART FACH

Cae melyn mawr a bach • Cae tri erw isha  
Cae Castell • Tir erw isha • Cae Stabal isha  
Cae dan ty • Cae tri chwarter  
Cae yr Odyn • Waun fach  
Cae dan y ty isha • Cae graig ucha  
Cae graig isha • Crofft wrth y ffynnon  
Graig • Cae glas • Cae cefn • Cae gwyllt  
Waun fawr • Bryn llechart fach



## D. a W. THOMAS

Garej Capel Road, Clydach, Abertawe

Ffôn: 01792 842529

*Busnes teuluol ers 1968*

*Good quality cars in stock*

*from £1,500 - £15,000.*

*All serviced with MOT.*

*Mostly local cars.*

## CEIR O SAFON

**Prisau rhwng £1,500 - £15,000**

**Gwasanaeth ac MOT ar bob un**

**Ceir lleol yw'r mwyafrif**

Pam prynu car newydd os oes rhai 3  
mis oed ar gael am bris rhesymol?

## MOT

## £39.50

*with this voucher*

*Gostyngiad arbennig i  
ddarllenwyr y Llais*

# YSGOLION

## YSGOL GYNRADD GYMRAEG GELLIONNEN

### THEMÂU'R YSGOL

Mae'n parhau yn brysur iawn yma yn yr ysgol. Thema'r tymor i blant y Derbyn yw 'Sblish, Sblash, Sblosh' ac maent wedi bod yn dysgu am stori Mrs Wishi Washi a Sali Sws. Thema Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yw Tyfu a Newid. Mae dosbarth Mrs Latham wedi bod yn edrych ar drychfilod a thyfiant pili pala. Crewyd rhaglen deledu am arddio gan ddsbarth Mrs Morgan a gellir ei gweld ar gyfrif Twitter @YGGGellionnen. Daeth plant Mrs Mackey â lluniau o'u hunain yn fabanod i'r ysgol a thrafodwyd eu dymuniadau am y dyfodol. Buont hefyd yn archwilio faint o siwgr sydd mewn diodydd a gwneud arddangosfa o'r canlyniadau.

### TEITHIAU'R YSGOL

Bu plant Blwyddyn 3 a 4 yn Llancaiach Fawr yn dysgu am y Tuduriaid. Cafodd y plant gyfle i deithio o gwmpas y Plasdy, gwisgo dillad o oes y Tuduriaid a chymryd rhan mewn gweithdai amrywiol. Bu plant Blwyddyn 5 ar gwrs preswyl, dan ofal Mr Mainwaring a Mrs Phillips, yn Nhŷ Borfa, Porth Einon (lluniau isod). Cawsant amser dda ac ymysg y profiadau amrywiol oedd dysgu syrffio a chyfeirannu (*orienteering*) a chwilio am fywyd yn y pyllau dŵr.



### CÔR YR YSGOL YN SERENNU

Bu côr yr ysgol yn brysur yn diddanu'r cyhoedd mewn bore coffi yng Nghapel y Nant yn ddiweddar a hefyd mewn noson yn y Mond.



### EISTEDDFOD YR URDD

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint yn ystod yr hanner tymor. Bu criw da yn cystadlu ar y Gân Actol, y Cyflwyniad Dramatig a'r Parti Cerdd Dant. Diolch i bawb sydd wedi wrthi yn ddyfal yn eu hyfforddi.

### CROESO

Rydym wedi croesawu dwy fyfyrwraig i'r ysgol sef Miss Ashleigh Davies a Miss Lowri Morgan. Mae'r ddwy wedi ymgartrefu yn nosbarth Blwyddyn 2 Mrs Mackey a dosbarth Derbyn Mrs Sweeney. Mawr obeithiwn y gwnant fwynhau eu hamser gyda ni.

### PEN-BLWYDD HAPUS!

Dathlodd Mrs Mair Phillips ben-blwydd arbennig ym mis Mai. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau oddi wrth bawb yn yr ysgol.

### LLWYDDIANNAU CHWARAEON

Cyrhaeddodd y tîm pêl-rwyd rownd derfynol Campau'r Ddraig ym Mhrifysgol Abertawe.

Enillodd y tîm rygbi ddwy gêm a cholli dwy gêm yn Nhwrnamaint yr Urdd ym Mhontardawe, tra cystadlodd tîm rygbi y merched yn wych yng nghystadleuaeth yr Urdd. Bu'r tîm pêl-droed yn fuddugol yn Nhwrnamaint Clwstwr Bryntawe a Harrison Doe oedd chwaraewr y twrnamaint. Llongyfarchiadau iddo ef ac i holl aelodau'r timau!

### ALED YN ARWR

Llongyfarchiadau i Aled Cadwalladr sydd wedi sgorio 99 cais yn ystod y tymor hwn i Glwb Rygbi'r Faerdre. Da iawn Aled – seren rygbi'r dyfodol!

## YSGOL GYNRADD GYMRAEG CWMLLYNFELL

### BARDD CYMRU

Braf iawn oedd croesawu Bardd Plant Cymru, Anni Llŷn i Ysgol Gymraeg Cwmllynfell ym mis Ebrill. Buodd Anni yn gweithio gyda rhai o ddisgyblion yr Adran Iau, gan rannu ei syniadau gwyh ynglŷn â sut i farddoni. Erbyn diwedd y dydd roedd pob plentyn wedi creu darn o farddoniaeth ardderchog.



## YMWELIAD Â CHASTELL-NEDD

Fel rhan o'u hastudiaethau y tymor yma, aeth criw o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad â Chastell-nedd. Fe wnaethon nhw dreulio'r bore yn Ysgol Gymraeg Castell-nedd cyn mynd am dro o gwmpas yn y dref yn y prynhawn. Buont yn cymharu nodweddion bywyd yn y dref â bywyd yn y pentref. Hyfryd oedd gweld y plant o'r ddwy ysgol yn cymdeithasu ac yn chwarae'n hyfryd gyda'i gilydd. Diolch o galon i Ysgol Gymraeg Castell-nedd am y croeso cynnes. Diwrnod bythgofiadawy.



## YMWELYDD O TSIEINA

Ar ddiwedd mis Ebrill buom yn ddigon ffodus i dderbyn ymwelydd o Tsieina i'r ysgol am ddiwrnod cyfan. Buodd hi'n gweithio gyda phob plentyn yn yr ysgol, gan wneud ystod eang o weithgareddau diddorol yn gysylltiedig â Tsieina. Bu'r disgyblion yn paentio, dawnsio, gwneud ymarfer corff, gwyllo fideo am ddiwrnod ym mywyd plentyn yn yr ysgol a dysgu sut i ysgrifennu eu henwau. Diolch yn fawr iawn i'r tîm MEAS am drefnu'r diwrnod arbennig hwn.



## GWERSI PÊL-DROED

Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn uned o wersi pêl-droed gan Curtis Grant, Swyddog Datblygu Pêl-droed ar gyfer Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe. Rydym yn ddiolchgar iawn i Curtis am ei waith caled ac roedd yn braf gweld y disgyblion yn datblygu'u sgiliau pêl yn ystod y gwersi.



## PLANNU HADAU

Mae disgyblion y Pwyllgor ECO wedi bod yn plannu hadau ym mhentref Cwmllynfell â chymorth a chefnogaeth aelodau'r gymuned. Hoffem ddiolch i Gyngor Cymunedol Cwmllynfell a Chanolfan Arddio Wrenvale am roi cyfle i ni gymryd rhan yn y prosiect "Grow Wild."

## YSGOL GYFUN YSTALYFERA

### TÎM IEUENCTID PRYDAIN A CHYMRU

Daeth galwad i Hannah Brier a Rhodri Williams i ymuno â thîm athletau ieuencid Prydain ac i Joe Brier i ymuno â thîm Cymru. Mae'n fraint ac yn anrhydedd i'r tri yn sgil llwyth o waith caled. Ardderchog!



### LLWYDDIANT PRIFYSGOL!

Llongyfarchiadau i Asia Hoile a Trystan Hughes am ennill bwrsari Nuffield fydd yn golygu eu bod yn treulio gwyliau'r haf yn cyflawni ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe. Gwych hefyd fod Angharad Morgan wedi ei dderbyn ar Ysgol Haf Prifysgol Rhydychen. Ardderchog!




### HWYL FAWR!

Pob lwc i ddisgyblion Blwyddyn 11 wrth baratoi ar gyfer eu harholiadau TGAU. Diolch aruthrol i Ms Kath Jones a'i thiworiaid am eu gofal.



## WAL GRAFFITI

Llongyfarchiadau i griw o fechgyn ym Mlwyddyn 9 a lwyddodd yn Her Ddinasyddiaeth y Fagloriaeth Gymreig gan greu Wal Graffiti sydd bellach yn cael ei harddangos yn yr ysgol – gwych Henry, Rhys, Elis, Nathan a Ben.



## LEEDS CONSERVATOIRE

Llongyfarchiadau enfawr i Angharad Morgan ar gael ei derbyn ar gwrs B.Mus Clasurool yn y Leeds Conservatoire – tipyn o gamp!



## CWRDD Â CHYN YSGRIFENNYDD CYMRU, PETER HAIN AS

Cafodd aelodau o'r Cyngor Ysgol gwrrd â chyn AS Castell-nedd a chyn Ysgrifennydd Cymru, Peter Hain yn ddiweddar.



## GWAITH ELUSENNOL GWYCH!

Cyflawnodd Logan, Callum, Jack, Alex ac Ellis waith ardderchog yn cefnogi gwaith elusennol Macmillan gyda'u clwb rygbi lleol. Da iawn chi!



## YSGOL GYNRADD GYMRAEG PONTARDAWE

### LLANGRANNOG 2016

Gyda'r haul yn disgleirio dros glogwyni Ynys Lochtyn aeth criw o flwyddyn 5 Ysgol Pontardawe ar ymweliad preswyl i wersyll yr Urdd Llangrannog. Daeth dros 300 o blant i'r safle i fwynhau gwledd o weithgareddau a hwyl yng nghwmni ysgolion Cymraeg Nedd a Phort Talbot. Ymysg y gweithareddau oedd cerdded i'r traeth, merlota, trampolinio, saethyddiaeth, gwibgartiau, rhaffau uchel a llawer mwy.



Ar y noson olaf cafwyd disgo o sesiwn ganu llawn hwyl. Braff oedd clywed yr holl blant yn cymdeithasu yn gymraeg yn haul tanbaid Ceredigion. Diolch i staff y gwerysll a'r athrawon am gynnal tridiau mor gofiadwy.

### GYMNASTEG

Llongyfarchiadau mawr i Ruby May Allen ac Ella Mai Davies ar gael eu dewis i gynrychioli Cymru yn y Gystadleuaeth Gymnasteg Brydeinig yn Stoke-on-Trent. Pob lwc a dymuniadau gorau iddynt.



### MABOLGAMPAU

Cynhaliwyd Mabolgampau blynyddol yr ysgol ar y cae chwarae. Roedd pawb yn llawn brwdfrydedd ac egni wrth gefnogi eu llys. Daeth y diwrnod i ben ar ôl cystadleuthau brwd ac agos iawn ond llys Tawe oedd yn fuddugol.

### SAIN FFAGAN

Fel rhan o'n thema ar Oes Fictoria ymwelodd dosbarthiadau blynyddoedd 3 a 4 ag Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Cawsant ddiwrnod i'r brenin yn dysgu am ein hanes, diwylliant a hen ffordd o fyw ein cyndeidiau. Uchafbwynt yr ymweliad oedd gwrs yn Ysgol Maestir a phob un yn crynu am fod cansen yn llaw Mrs Richards!





# ABER-CRAF

## YN YR YSBYTY

Mae Mrs Audrey Brookfield, Ynys-wen wedi gadael Ysbyty Treforys ar ôl cael triniaeth lawfeddygol. Mae'n aros am gyfnod yng nghartref gofal Tŷ Mawr er mwyn cryfhau. Dymunwn iechyd da iddi.

## SEFYDLIAD Y MERCHED

Daeth Mr Ward o Ddyffryn Cellwen i siarad am ei waith gyda grŵp lleol sy'n dosbarthu bwyd iachus naturiol ac organig yn rhad. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â J. Ward, 47 Main Road, Dyffryn Cellwen (Ffôn 01639 701415).

## MARWOLAETH

Bu farw Gerald Doddesley, gynt o Gaehopkin, yn ei gartref yn Jersey. Bu'n byw am flynyddoedd hapus yn ein plith, cyn symud i fyw yn Jersey yn agos at ei ferch. Cydymdeimlwn â'i wraig Thelma a'r teulu.

# YSTRADGYNLAIS

## CYNGERDD

Syniad gan un o'r cantorion oedd cynnal cyngerdd fawreddog a bu'n gyfrwng i godi £1,500 i'r elusen 'Golau'. Mae'n rhaid bod Bill Williams yn hynod o falch o'r gyngerdd a gynhaliwyd yn y Neuadd Les ddydd Gwener, Ebrill 15. Ei syniad ef oedd codi'r arian i 'Golau' yn Ysbyty Singleton. Aeth Andrew Ingram a Brian Hastie ymlaen â'r trefniadau a bu'r cyfan yn llwyddiant ysgubol.

Agorwyd y gyngerdd gyda Chôr Cefnogwyr y Gweilch o dan arweiniad Aled Hopton, y cyfarwyddwr cerdd ac Angharad Davies yn cyfeilio, yn canu o 'Lion King', 'Seal Lullaby' a'r 'Tangnefeddwyr'. Cafwyd unawdau gan Helen Gibbon, soprano a Huw Roberts, bass-baritone gydag Angharad Davies a Christopher Lewis yn cyfeilio.

Daeth y rhan gyntaf i ben wrth i Gôr y Gyrlais, dan arweiniad eu cyfarwyddwr cerdd, Glyn Williams a Christopher Lewis yn cyfeilio, ganu 'Anthem' o 'Chess', 'Fields of Athnry', 'Gwahoddiad' ac 'O Gymru'.

Wedi egwyl fer canodd Côr y Gyrlais 'American Trilogy', 'Dashenka' a 'Morte Christe' gyda Helen Gibbon yn canu'r trydydd pennill. Yna cafwyd unawdau gan Helen Gibbon a Huw Roberts. I ddilyn canodd Côr Cefnogwyr y Gweilch 'Ar lan y môr', 'Droit On' a 'Gweddi Eli Jenkins'.

Unodd y ddau gôr i ganu 'You'll never walk alone' i ddod â'r gyngerdd i ben cyn canu'r Anthem Genedlaethol gyda'r gynulleidfa yn ymuno.

Alun Wyn Bevan oedd cyflwynydd y noson. Diolchodd i Ambiwllans Sant Ioan am eu gofal ac i'r holl wirfoddolwyr o deuluoedd y Gyrlais ac aelodau Côr y Dathlu. Cafodd y gynulleidfa noson wrth eu bodd ac roedd eu gwerthfawrogiad yn frwd iawn.

Ar Fai 26 bu Côr y Gyrlais yn canu yn Eglwys Ystumllwynarth gyda disgyblion Ysgol Llwynderw. Derbyniodd y Côr wahoddiad hefyd i ganu gydag Ensemble Georgian Rustavi yn Eglwys Gadeiriol Llan-daf ar Fehefin 3.

Ar Fedi 10 bydd y Côr yn uno gyda Chôr Clwb Rygbi Gogledd Cymru yn y Neuadd Les gyda'r tenor enwog Rhys Meirion. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at goffad i Hedd Wyn yng Ngwlad Belg. Rhwng Hydref 24-28 bydd y Côr yn teithio yng Ngwlad Belg ac yn canu wrth y Menin Gate ar y 24ain ac Eglwys Lille ar y 25ain.

## MARWOLAETHAU

Yn Ysbyty Treforys ar Ebrill 3 bu farw Dorothy Francis, Heol Gorof, priod y diweddar Clarence, am Elvira a'r diweddar Glyndwr, mamgu, hen-famgu a mam-yng-nghyfraith annwyl. Ar Ebrill 15 yn Ysbyty Treforys by farw Anthony Williams, Heol Aberhonddu, priod Helen, tad Morgan, mab Bryan ac Ethel, brawd Lisa, Debbie a Charlene.

Yn Ysbyty Singleton a Fai 6 bu farw Raymond Rees, Heol Abram, y Gurnos, priod Sylvia, tad, tadcu a hen-dadcu annwyl.

Yn dawel yn Ysbyty Treforys ar Fai 11 bu farw William Glyndwr Powel (Glyn), Alder Avenue, priod Olwen, tad Elaine, tad yng nghyfraith Nigel, tadcu Rhys a Cathryn, brawd yng nghyfraith ac ewythr annwyl. Bu Glyn yn brifathro ar Ysgol Glanrhyd.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd hyn yn eu hiraeth.

# YSTALYFERA

## Y PENTECOST A CHYMORTH CRISTNOGOL

Roeddent i gyd yno 'oll ynghyd yn yr un lle', ac fel y gallwn werthfawrogi ar yr adegau hynny pan rydym wedi ymgasglu a dod ynghyd, mae pethau mawr yn gallu digwydd. Nid oedd y cyfarfod hwnnw yn yr oruwch-ystafell y sonnir amdano ar ddechrau llyfr yr Actau yn eithriad. Yn annisgwyl iawn clywed swm gywnt nerthol yn chwythu heibio a gwelsant dafodau o dân yn disgyn ar bawb oedd yn bresennol. Gochelwn yr annisgwyl, cymerwn fantais o bob munud dawel, er mwyn bod yn sensitif i'r modd mae Duw yr annisgwyl, yn ei ffordd greadigol-ryfeddol ei hun yn dylanwadu arnom.

Aflonyddwyd preswylwyr y tŷ wrth iddynt weld a chlywed pethau na fyddent, fel arfer, yn eu clywed a'u gweld.

Mewn munud dawel a ninnau oll ynghyd boed i'r pethau sydd tu hwnt i amgyffred y synhwyrâu ein haflonyddu ninnau a'n gwneud yn gyfryngau ei gariad a'i heddd.

A'r drysau wedi cau tebyg iawn, atgyfnerthwyd y cwmni dethol. Yn yr un modd gyda'r Ysbryd yn symud yn ein plith mewn oedfa ar fore Sul, y gobaith mawr yw y cawn ninnau hefyd ein hatgyfnerthu fel bo eraill trwom ni yn dod i wybod am y gwerthoedd sydd yn rhoi ystyr i fywyd.

Yn goron ar y cyfan oll adferwyd eu ffydd a rhoddwyd yr adnoddau iddynt i amlygu angerdd cariad Duw tuag at y byd a'i bobl.

Anturiwn ninnau 'mlaen a doedd dim gwell cyfle i ni wneud hynny nag yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Diolch am bob rhodd a chyfraniad o'n heiddo yn ystod yr Wythnos Fawr. Mae'n hymdrechion yn mynd i wneud gwahaniaeth i rywrai, yn sicr iawn, ond mae cymaint ar ôl i wneud.

Boed i'r hyn ddigwyddodd ar y Pentecost nodedig hwnnw fod yn ysbrydoliaeth barhaus i ni a'n llanw ag awydd pur er mwyn dod â gwên nôl ar wyneb byd sydd, ar lawer cyfrif, yn drist ac yn ddiymgeledd.

# YR ALLTWEN

## CYDYMDEIMLAD

Bu farw aelod hynaf y Capel, sef Mary Richards, Y Graig, Gelli-nudd, yn 98 mlwydd oed, gweddw Geoffrey. Yn ystod ei bywyd bu'n gweithio yn y ffatri arfau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn y cantin yng ngwaith yr Alloy, Ponatrdawe. Roedd yn hoff iawn o wneud ymarfer corff a bu'n gwneud ymarferion tan y diwedd. Yn unig ferch o deulu o saith o blant roedd yn fodryb annwyl a chefnogol iawn i'w nithoedd a'i neiaint. Cymdeimlwn â'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

## DYRCHAFIAD

Llongyfarchiadau gwresog i Owain George, mab Delma a

Gareth ac ŵyr Beti George ar ei ddyrchafiad yn Rheolwr Cynllunio Dŵr Cymru.

### GWOBRAU

Mae'r rhaglen deledu "Copa Patagonia, Eric Jones ac Ioan Doyle" wedi derbyn cryn ganmoliaeth yn rhyngwladol. Yng Ngŵyl Ffilmiau a Theledu Efrog Newydd enillodd y rhaglen Fedal Arian yn y categori chwaraeon ac adloniant. Yn yr Ŵyl Ffilmiau Antur yn Sheffield cafwyd y wobwr efydd. Hefyd cafwyd enwebiadau yng ngwyliu Kendal, Vancouver, Iwerddon a'r Coed-duon. Cyfarwyddwr y rhaglen oedd Rhodri, mab Nest a Gwynfor Davies, Pen-yr-Alltwen.

### PEN-BLWYDD 80

Llongyfarchiadau i Gwen Davies, Lon-y-Wern ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Yn gyn-athrawes, mae Gwen yn ffyddlon i holl weithgareddau'r Capel lle mae'n paratoi'r cymun yn fisol ac yn drysorydd banc cynilo y Chwaeroliaeth. Dathlodd yr achlysur gyda'i theulu a ffrindiau yng ngwesty Pen-y-Cae a mwynhaodd y Chwaeroliaeth barti ar ei chyfer a drefnwyd gan ei chyfnither Nest a'i chefnider Gareth.



### BORE COFFI

Cynhaliwyd bore coffi Cymorth Cristnogol yn y Ffestri eleni eto a llwyddwyd i wneud elw o £560. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

### MERCHED Y WAWR

Glenys Protheroe, Gwaun-cae-gurwen oedd y siaradwraig yng nghyfarfod mis Ebrill. Testun y sgwrs oedd jygiau Lystar copor a diddorol oedd clywed hi'n olrhain hanes y crochenwaith a diolch iddi am drafferthu i ddod â chymaint o enghreifftiau i ddangos i ni. Jygiau Lystar copor plaen yw ei ffefryn ond dangosodd jygiau Lystar arian ac aur hefyd. Fel arfer ym mis Ebrill croesawyd aelodau cangen Lôn-las a mwynhaodd pawb y lluniaeth hyfryd a baratowyd gan aelodau y gangen. Prynawn diddorol dros ben a gafodd ei gyflwyno mewn ffordd hamddenol ac yn llawn hiwmor. Cynhelir y cyfarfodydd o hyn allan yn Nhŷ'r Gwrhyd. Diolch yn fawr i aelodau Soar am eu parodwydd i adael i ni ddefnyddio'r festri ac yn enwedig i Cynthia Dodd a sicraodd bod drws y festri yn agored i ni ar gyfer pob cyfarfod.

## PONTARDAWE

### Y GRŴP DARLLEN

Byddwn yn cyfarfod o hyn ymlaen yn Nhŷ'r Gwrhyd. Diolchwn am y croeso a gawsom yn y Llyfrgell ac yn Soar. Mae adnoddau addas iawn yn y Ganolfan Gymraeg newydd ac edrychwn ymlaen at astudio, trafod a chymdeithasu bob pythefnos ar fore lau. Mae croeso i aelodau newydd.

Wedi i ni gael blas anghyffredin ar ddwy nofel gan Angharad Price, sef "Caersaint" ac "O! Tyn y Gorchudd" derbyniodd yr awdur wahoddiad Ann Rosser i'n cyfarfod yn Ninas Mawddwy - yn agos iawn at leoliad "O! Tyn y Gorchudd". Daeth atom i'r Llew Coch a chawom sgwrs ddiddorol iawn dros bryd o fwyd am yr hyn a'i chymhellodd i ysgrifennu'r nofel sy'n gyfuniad o hunangofiant a chofiant am ei theulu yn fferm Tŷ'n y Braich. Daeth gyda ni i'w weld a daeth cymaint o'r hanesion yn fyw yn ei chwmmi. Wedyn buom yn ymweld â sawl man o ddiddordeb ym Meirionnydd a Maldwyn yn ystod y tridiau nesaf. Aethom yng nghwmni Gwyneth, sy'n hannu o'r un ardal, ar hyd Cwm Cywarch i Bennant Melangell ac i Fwlch-y-Groes ac ar ein diwrnod olaf i bentref Llanwddyn a Llyn Efyrynwy. Boddwyd y

pentref gwreiddiol er mwyn creu cronfa ddŵr i Lerpwl. Yma mae cartref lolo Williams y naturiaethwr a lle bu ei dad, brodor o Bontardawe, yn brifathro ar yr ysgol gynradd. Wrth deithio adre cawsom gyfle i ymweld ag eglwys hynafol Mallwyd a'n hatgoffa am John Davies a'i gyfraniad gwerthfawr i gyfieithiad Cymraeg y Beibl. Cawsom ginio yn Nolgellau mewn bwyty a glywsom sôn amdano ar 'Heno'. Enw'r bwyty yw *Dylanwadau* - cofiwch alw os byddwch yn y cyffiniau! Diolch o galon i Nest a Delma am fod mor barod i'n cludo o le i le ac i Ann wrth gwrs am drefnu.

### TABERNACL

#### OEDFAON MIS MEHEFIN

12	10.30	Y Chwaer Marie Thomas (Saesneg)
19	10.30	Y Parchedig Owen Pugh
26	10.30	Y Brawd Rhydian Griffiths

#### OEDFAON MIS GORFFENAF

3	10.30	Y Parchedig Owen Pugh (Cymundeb)
10	10.30	Y Parchedig Gareth Thomas
17	10.30	Y Parchedig Owen Pugh
24	10.30	Y Chwaer Marie Thomas (Saesneg)
31		I'w lenwi

### BEDYDD

Ar 1 Mai bedyddiwyd yr efeilliaid Noah Dylan Preece a Finn Lloyd Preece gan ein gweinidog Y Parchedig Owen Pugh. Ganwyd y ddau ym mis Awst 2015. Eu rhieni yw Huw ac Andrea Preece o Dre-gŵyr. Mae Huw yn fab i'n haelod Marlene Preece a'i gŵr Nigel o Gelli-nudd. Rhieni Andrea yw Anne a Mel Mainwaring o Bontybrenin. Dyma lun o'r teulu hapus gyda'r gweinidog yn dilyn y bedydd.



### GWELLHAD BUAN

Gwellhad buan i'n haelod Ferial Roberts yn dilyn llawdriniaeth ar ei phen-glin yn ysbyty Treforys yn ystod y mis.

### CYNGERDD BAND Y WAUN

Ar 11 Mehefin bydd Band Arian Gwauncaegurwen yn cynnal cyngerdd yn y Tabernacl gydag artistiaid eraill i godi elw ar gyfer elusennau lleol. Bydd y cyngerdd yn dechrau am 7.00 p.m. Mynediad yn £5 a'r tocynnau ar gael wrth y drws. Mae'r cyngerdd yn cael ei gynnal dan nawdd Clwb Rotari Cwmtawe.

### YMWELD Â'R PANTRI

Roedd swyddogion Y Pantri, sy'n gwneud gwaith mor dda yn yr ardal, yn falch iawn i weld Dr Dai Lloyd, Aelod Cynulliadl, yn galw yn y Tabernacl ar Sadwrn 21 Mai i ymweld â'r fenter yn gweithio. Roedd wedi cwrdd â sawl un o'r bobl oedd yno ar y dydd yn edrych am gymorth. Mae Dr Lloyd yn pregethu'n gyson yn y capel a bydd yno eto ym mis Ionawr 2017.

## SOAR

### LESOTHO

Ar Fai 1af daeth Mr Gwenallt Rees, cyn-brifathro Ysgol Gynradd Gymraeg Ystradgynlais, sy'n awr yn byw yng Nghaerdydd i roi dipyn o hanes yr Eglwys yn Lesotho. Efallai i chi weld y rhaglen ar y newyn yn y wlad ar S4C pan fu ef yng nghwmni Garry Owen. Mae Soar am gyfrannu at y gwaith mae ef a'i eglwys yng Nghaerdydd yn gwneud i gynorthwyo pobl Lesotho.

### Y GYMDEITHASFA YN Y DE

Tro Henaduriaeth Myrddin ydoedd i groesawu y Gymdeithasfa yn y De ar Fai 10fed ac 11eg yng Nghapel Bethani Rhydaman. Bu'r Parch Beti Wyn James yn trafod ei gwaith fel gweinidog ar ddwy eglwys a'r Athro Ceri Davies, Abertawe oedd yn annerch gyda'r hwyr. Dosbarth Tawe Nedd fydd yn croesawu'r Gymdeithasfa yn 2017 a Soar fydd y lleoliad.

### CYDWELI

Henaduriaeth Myrddin hefyd oedd yn croesawu Sasiwn Genhadol Chwirydd y De i Eglwys y Morfa, Cydweli. Aeth pedair ohonom o Soar i'r Sasiwn gydag aelodau eraill o Ddosbarth Tawe Nedd, Abertawe a Phontarddulais. Cawsom gyflwyniad gan y Parch Gwenda Richards o Gaernarfon am eu hymweliadau â'n maes cenhadol ni yn yr Assam, Bryniau Casia ar y gwaith dyngarol mawr sydd wedi ei gyflawni gan genhadon yno ers y 19G. Y Parchedig Jill Hailey-Harris oedd yn annerch yn yr hwyr a soniodd hi am y gwaith mae'n ei wneud yn Abertawe fel un o Fugeiliaid y Stryd. Derbyniodd Mrs Sarah Morris, yr Is-Lwydd, deganau a wnaed gan Avril a'i chwaer ar gyfer plant difreintiedig.

### GWELLHAD

Mae'n dda cael dweud bod Wendy adre o'r ysbty erbyn ac yn gwella, ond yn araf iawn.

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Rebeca ar gael ei hurddo yn Faer Pontardawe. Gobeithio bydd gweld un o'r to ifanc yn denu eraill i ymddiddori yng ngwaith y cyngor lleol.

### LLYFR Y FLWYDDYN

Llongyfarchiadau i Daniel, wedi i'w gyfrol "Wales Unchained" gael ei dewis i fod ar restr fer Llyfr y Flwyddyn

gael ei ethol i gynrychioli Bro Morgannwg fel ei Aelod Seneddol ym Mai 2011. Mae'n cael ei barchu gan ei etholwyr fel un sydd yn cymryd ei gyfrifoldebau o ddifrif a'i fod ar gael iddynt bob amser i'w cynorthwyo hyd at eithaf ei allu.

Rhinweddau clodwii yw rhain ac nid oedd arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol yn ddall iddynt felly mater o amser fyddai cyn i Alun gael ei ddyrchafu i un o swyddi uchel y Llywodraeth. Yn wir daeth ei gyfle trwy gyfrwng ffôn o rif 10 Downing Street gyda'r Prif Weinidog yn gwahodd Alun i gymryd yr aruchel a'r arswyddus swydd, sef Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Gyda balchder derbyniodd y gwahoddiad er mawr glod i'w deulu annwyl: Emma, ei wraig a'u mab Harri, ynghyd â Margaret a Huw ei rieni a Bethan ei chwaer sy'n byw gyda'i theulu yn Singapore.

Rydym eisoes wedi gweld a chlywed Alun yn aml ar y cyfryngau a byddwn siwr o fod yn ei glywed yn amlach o hyn ymlaen.

Bellach mae Alun yn Gyfrin Gynghorwr (*Privy Councillor*) ac bydd yn cael ei alw i gynghori'r Frenhines.

Llongyfarchiadau mawr i Alun ar ei ddyrchafiad. Dymunwn bob rhywyddineb iddo wrth iddo sefyll gyda'r mawrion sydd hefyd, fel yntau, wedi cael y fraint o gynrychioli'r genedl a'i gwasanaethu mewn ffordd arbennig iawn.

**Gareth Hopkin**

### YMWELIAD O AWSTRALIA

Pleser i Jeff a Heulwen Morgan, Parc Kingrosia oedd cyfarfod gyda Stuart a Margo Morgan, o Perth, Awstralia unwaith eto ar y 25 o Ebrill eleni. Roeddent ar eu gwyliau yng Nghymru ac yn awyddus iawn i gwrdd â'r teulu, ac i ymweld â Chapel y Baran a Phantycrwyys, oherwydd maent yn gymwynaswyr da i'r ddwy eglwys. Pan yn y Baran cafwyd croeso cynnes gan Eifion a Dilys Walters, a derbyn o'u lluniaeth hael yn eu cartref. Roedd Stuart yn hapus iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn y Baran.

Hefyd, cafodd y ddau ohonynt groeso cynnes ym Phantycrwyys, ac roeddent yn hapus iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yno. Cafodd y ddau gyfle i gwrdd â llawer o'r teulu yng nghartref Jeff a Heulwen, cyn teithio i Orllewin Cymru. Ar ôl dychwelyd i Abertawe, hebryngwyd y ddau i faes awyr Caerdydd i ddechrau ar eu taith adref, heibio Munich a Dubai. Unwaith eto cafwyd gwahoddiad oddi wrth Dr. Tommy Detournay a'i wraig, Michelle, i Heulwen a Jeff Morgan ynghyd â Bill a Meirwen Hyett i ymweld â phentref Eppe-Sauvage yn Ogledd Dwyreiniol Ffrainc, i wasanaeth i gofio am griw Lancaster W.4951 o 101 Squadron a gollodd eu bywydau ar 15 Ebrill 1943. Ewythr Heulwen oedd y 'navigator', sef F/O Henry Eifion Clement o Felindre. Ar y daith yno cawsom y cyfle i dystio i seremoni nosol yn y 'Menin Gate' yn Ypres gwlad Belg. Ar y muriau mae enwau dros 60,000 o filwyr a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. 'Roedd ein taith wedi rhoi cyfle i ymweld â'r fynwent filitaraidd fwyaf Brydeinig, sef Tyne-Cott. Yma claddwyd 12,000 a 8,300 ohonynt yn ddi-enw. Wedyn ymlaen i dre Maubeuge lle mae ewythr Bill F/O George Williams wedi ei gladdu ym mynwent Maubeuge, dim ond pedwar bedd i ffwrdd o ewythr Heulwen. Fe laddwyd y ddau yng nghoedwig Trecon, tu allan i bentref Eppe-Sauvage. Pan yn y fynwent, dodwyd rhosyn ar feddau yr wyth criw. 'Roedd y fynwent yn daclus dros ben fel arfer. Cyrraeddasom gartref Dr. Tommy ar ddydd Sadwrn 7 Mai, a'r croeso yn fendigedig. Er wedi cael tostrwydd ar ddechrau'r flwyddyn, mae'r ddau bellach yn holliaich. Bore Dydd Sul 8 Mai 'roedd gwasanaeth o amgylch cofeb y pentref am 11 o'r gloch o dan arweiniad y Maer Vivienne. Dilynwyd gan wasanaeth byr wrth fynediad y fynwent lle 'roedd cofeb i saith o griw y Lancaster. Cafodd Heulwen a Bill y fraint o osod bobo dorch o babis coch yn y fangre hon. Gosodwyd torch gan Wing Commander Ross McKenzie o SHAPE H/Q yn Antwerp (ei fam yn enedigol o'r Mwmbwls). I orffen gosodwyd torch o flodau gan gynrychiolwyr militaraidd Ffrainc. Yn neuadd y pentref rhoddodd Dr Tommy Detournay hanes am bob un o'r criw i bobol y pentref. Dilynwyd hyn gan luniaeth, a sgwrs â'r bobol leol i ddiolch iddynt am eu caredigrwydd, ac yn enwedig am gofio'r dynion ifanc o gollodd eu bywydau."

## CRAIG CEFN PARC

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i'r Gwir Anrhydeddus Alun Cairns, AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Un ohonom ni yw Alun Cairns, wedi ei eni a'i addysgu yn ein plith yng Nghwm Tawe ond erbyn hyn wedi dringo'n uchel yn y byd gwleidyddol ac yn dal un o'r swyddi mwyaf allweddol.

Cyn iddo fynd i weithio i Fanc Lloyd's, mynychodd Alun Ysgol Gymraeg Pontardawe ac Ysgol Gyfun Ystalyfera. Yn y dyddiau hynny roedd Alun yn hoff iawn o gymryd rhan yn gyhoeddus ac arferai fynd o amgylch yr eisteddfodau bach, ynghyd â'r prif wyliau yn adrodd gyda chryn lwyddiant.

Mae wedi ymddiddori mewn materion gwleidyddol ers bore oes, a'r blaid oedd wedi denu ei fryd oedd y Blaid Geidwadol. Ers iddo ymuno â'r Ceidwadwyr mae ei ddi-ddordeb a'i frwdfrydedd yn amlwg i bawb sydd yn rhannu'r un daliadau ag Alun. Gwobrwyd ei sêl a'i gyfraniad i'r Blaid Geidwadol pan gafodd ei ethol i'r Cynulliad yng Nghaerdydd ym Mai 1999. Yn ystod ei gyfnod yno 1999-2011 Alun oedd llafarydd ei blaid ar bolisi economaidd Cymru ac yn gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Roedd hynny'n glod iddo, ond roedd mwy i ddod gan i Alun



# RHYDYFRO

## CAPEL Y BARAN

Fe'n cyfoethogwyd yn fawr yn ein gwasanaeth ar y Sul cyntaf o Fai dan arweiniad y Parchedig Dewi Myrddin Hughes. Pregethodd ar Dduw yn galw Moses i waith digon anodd. Nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai Pharo na'r Iddewon yn gwranddo. Clywsom am esgusodion Moses, geiriau i ni yn clywed rhy aml yn ein heglwysi heddiw, "gofynnwch i rywun arall". Ac wedyn fe ddaw'r esgusodion, "Excuses" medde rhywun "are the tools of the incompetent". Cwyn a glywir yn aml heddiw yn ein capeli yw "Does neb gyda ni sy'n barod i wneud". Addewid Duw i Moses oedd "byddaf fi gyda thi" Ar ddiwedd y bennod olaf o Efengyl Mathew mae'r Iesu yn rhoi ei gomisiwn i'w ddisgyblion ac maen addewid i ninnau hefyd. Ac yn awr yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser". Diolch i'r gennad am ein hatgoffa mae nid yn nerth ein hunain y gweithiwn yn ei deyrnas Ef.

Cawsom y pleser o gwmni Stewart a Margo Morgan o Perth Awstralia ddiwedd Ebrill. Drwy eu haelioni mawr bu'n bosib gwneud gwaith adnewyddu sylweddol ar y capel, gwaith sydd wedi sicrhau diogelwch yr adeilad ymhell i'r dyfodol. Roeddynt wrth eu bodd i weld y capel ar ei newydd wedd. Mawr yw'n diolch iddynt am eu cyfeillgarwch a'u caredigrwydd.

Bydd oedfa mis Gorffennaf o dan ofal y Parchedig Gerald Jones, mis Awst y Brawd Jeff Reed, mis Medi cwrrd diolchgarwch o dan ofal y Parchedig Meirion Evans, mis Hydref y Parchedig Ieuan Davies. Bydd pob oedfa ar Sul cyntaf y mis am 2.30 y/p

Eleni cynhelir ein darlith flynyddol ar Fehefin 14eg am 6.30pm. Ein darlithydd gwadd fydd yr Actores Rhian Morgan. Testun ei darlith fydd "Ar ben stôl". Bydd lluniaeth wedi ei baratoi i bawb ar ôl y ddarlith. Croeso cynnes iawn i bob cyfarfod.



## SARON

- 12 Parchedig Gareth M Jones  
19 Y Brawd Eric Francis  
26 Y Chwaer Gaynor Francis

Da oedd croesawu Mrs Joan Jones, Waun Sterw yn ôl i'r capel wedi'i thostrwydd.

Cafodd Arthur Bryn Jones ddamwain yn ei gartref pan gwmpodd ar y grisiau a thorri cwt cas ar ei ben. Bu yn ysbyty Treforys am wythnos ac ar hyn o bryd mae yn ysbyty Nedd a Port Talbot. Gobeithio y bydd gartref cyn hir.

## MARWOLAETHAU

Bu farw Roland, gŵr Elvira, Pantycelyn gynt, ym mis Ebrill. Bu'r gwasanaeth angladdol yn eglwys Dewi Sant, Trelales (Laleston) cyn mynd ymlaen i amlosgfa Coety. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Elvira, y merched Melanie a Judith a'u gwŷr Timothy a Michael a hefyd yr wyron.

Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad â Paul Price, Waun Penlan a'r teulu oll ar farwolaeth ei chwaer Suzanne Thomas Watkins, Heol Glyn-meirch, Trebanws.

# FELINDRE

## NEBO

**OEDFAON MIS MEHEFIN 10.30 A.M. AC YSGOL SUL AM 2.30 P.M.**

- 12 Y Parchedig Owen W. Pugh: Oedfa Gymun  
19 Dr. Eurig Lloyd  
26 Y Parchedig Owen W. Pugh

**OEDFAON MIS GORFFENAF 10.30 A.M. AC YSGOL SUL AM 2.30 P.M.**

- 3 Y Parchedig Clive Williams  
10 Y Parchedig Owen W. Pugh: Oedfa Gymun  
17 Y Brawd D.C. Davies  
24 Y Parchedig Owen W. Pugh  
31 Y Chwaer Catrin Roberts

## YSBYTY

Mae'n dda clywed fod Mr Hywel Harris adre o'r ysbyty ac ar wellhad. Hefyd adre mae Mr Brian Mephan ond mae Mrs Gwen Clement yn dal i fod yng Nghartref Hafan-y-Coed.

Yn ysbyty Singleton mae Mr Ian Davies, brawd Mrs Anne Evans, Bryncelyn. Dymunwn yn dda i'r cleifion oll.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau gwresog i Miss Menna Stone, Fferm Cil-faen ar ei dyweddiad â Mr Rhodri Davies, Fferm Gwardafolog, Pontsiân. Mae Menna wedi bod yn un o ffyddloniaid parod Ysgol Sul Nebo dros y blynyddoedd.

Llongyfarchiadau hefyd i Delfryn Hall a Rhiannon ar eu priodas ar 21 Mai yng Ngretna Green. Deallwn fod Emyr Bell yn was priodas iddynt. Mae Delfryn yn fab i Mrs Morwenna a'r diweddar David Hall.

Dymuna'r gymuned pob hapusrwydd iddynt oll i'r dyfodol.

## DIOLCH

Hoffai Mrs Mary Harris, Llys-yr-Awel, ddiolch i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu haelioni adeg ei phen-blwydd yn gant oed.

Mae'n diolch o waelod calon am y blodau a gafwyd ac am yr holl gyfraniadau at elusen Sefydliad y Galon.

## BEDYDD

Roedd gwasanaeth y Cymun ar fore Sul 18 Mai dan ofal ein Gweinidog, y Parchedig Owen W. Pugh. Yn y gwasanaeth arbennig hwn bedyddiwyd Poppy Rose, merch fach Samantha a Richard Manley, Crown Villa.



Hwn oedd gwasanaeth bedydd cyntaf ein gweinidog ers ei sefydlu yng Nghapel Nebo. Roedd yn achlysur hapus a bendithiol yng nghwmni llu o deulu a ffrindiau. Dymunwn ddyfodol llewyrchus a hapus i'r teulu bach sy' wedi ymgartrefu yn Felindre ac yn gefnogol iawn i weithgareddau'r gymuned.

### NEUADD Y PENTREF

Cafwyd noson o adloniant i'w chofio yn Neuadd y Pentref ar nos Fawrth Mai 10fed gan griw o bobl ifanc Twrw Tawe. Synnwyd y gynulleidfa gan eu talent proffesiynol yn y canu, llefaru a chwarae offerynnau, pedair telyn ar y llwyfan ynghyd â dau cello, un ffidil ag un gitâr – anhygoel!

Cyflwynydd y noson oedd Helen Jones a diolchodd yn ddiffuant i'r côr a'r offerynnwyr ac yn arbennig i Emyr ac Elfair Jones (cyfeilyddes) a'r arweinyddion, sef Cath Price, Crissley Jones a Naomi Morris am eu ymroddiad a'u hysbrydoliaeth amlwg i'r bobl ifanc.

Llywydd gwadd y noson oedd Mr Arwyn Evans, Clydach. Mae Arwyn yn cyn brifathro Ysgol Iau Cwmtawe a ategodd y diolchiadau i'r bobl ifanc a'u harweinwyr am gyngerdd gwyach. Mae gan Arwyn gysylltiad agos â phentre Felindre gan ei fod yn byw yma yng 'Nghil Paen' yn ei blentyndod, a nawr â Chapel Nebo fel Ysgrifennydd Capel Salem cyfagos.

Rhaid diolch hefyd i bwyllgor gweithgar y neuadd am drefnu'r gyngerdd a pharatoir lluniaeth ar derfyn y noson glodwiw.



### DINASYDDION HÛN / CYMRU BYWIOG

Dyma fraslun o'r siaradwyr a diddanwyr diddorol â ymwelodd â 'Chymru Bywiog' y Felindre sy'n cwrrd bob yn ail brynhawn dydd Mawrth am 2.00yp.

#### MAWRTH 3ydd:

John Powell a ffrind o Brifysgol Abertawe, yn sôn am ymweliad y 'G.I.'s', y milwyr Americanaidd ag Abertawe a'r cylch, tua diwedd yr Ail Ryfel Byd. Dangoswyd sleidiau o'r milwyr yn cyfathrebu â phobl yr ardal. Rhai ohonynt yn cadw cyswllt tan y dydd presennol.

#### MAWRTH 22ain:

Mr Brian Stokes yn trafod 'World Wide Wonders' ac yn canolbwyntio ar y bydysawd gyda lluniau anhygoel.

#### EBRILL 4ydd:

Gwibdaith i Gaerfaddon a fwynhawyd gan bawb ar ddiwrnod gweddol braf.

#### EBRILL 19eg:

Mr Martin Price yn sôn am hanes gwir ond a oedd yn ddirgelwch am ymgyrch i fynyddoedd yr 'Urals'. Diflanodd pawb heb sôn amdanynt, a thyb rhai oedd mai chwyldro (Vortex) oedd wedi achosi hyn i ddigwydd.

Gorffen pob sesiwn â chwpaned o de a bisgien a chlonc. Croeso i unrhyw un ymuno â ni. Cysyllter am fanylion â'r Ysgrifennydd Mr Brian Evans 01792 791500.

# CLYDACH

### MERCHED Y WAWR

Yn ystod mis Mai croesawyd un o ymwelwyr cyson â'r gangen ym mhon Dewi Lewis. Wrth ofyn am deitl i'w sgws wrth baratoi rhaglen ar ddechrau'r tymor gyda'r wen ddireidus ar ei wyneb "Cewch *syrpreis*". Rwy'n amau nad oedd syniad gan Dewi yn Haf 2015 beth fyddai ei destun ym Mai 2016. Ffrwyth taith i Efrog Newydd i ddathlu achlysur arbennig oedd ei sgws. Cael siom ar yr ochr orau wnaeth wrth ymweld â Center Park yng nghanol Efrog Newydd. Doedd e ddim wedi rhagweld y byddai'n gweld cymaint o adar - ambell un cyfarwydd a rhai hollol newydd. Cafwyd sgws ddi-ddorol ac yn ôl ei arfer roedd yn ddifyr iawn. Diolch am gael cip ar fywyd ambell aderyn, mae natur yn dal i ryfeddu dyn drwy ei holl rywogaethau.

### ORDEINIO

Mae aelodau Eglwys y Santes Fair Clydach yn edrych ymlaen i fis Mehefin pan fydd dau o'u haelodau yn cael eu hordeinio. Bydd y Parchg Dorothy Lewis, sy'n gurad yn cael ei hordeinio yn Ficer a Hywel Griffiths yn cael ei ordeinio yn Gurad. Ar ôl cyfnod o encil yn Llangasti cant eu hordeinio yn Eglwys Gadeiriol Abertawe ac Aberhonddu ar ddiwedd Mehefin. Y Parchedig Garry Green o Bontardawe sydd â gofal dros Eglwys y Santes Fair ond mae gan y plwyf nifer sydd ar gael i wasanaethu.

### CYMORTH CRISTNOGOL



Bu pobl yr eglwys yn brysur eleni eto yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Stafell Galilea yn Eglwys y Santes Fair ar y Nos Lun, o dan ofal Dr Alan Cram, llywydd y Pwyllgor Lleol ac aelodau o'r gwahanol eglwysi. Cynhaliwyd bore Coffi yn Neuadd y Nant ar fore Mawrth gyda phlant o Ysgol Gymraeg Gellionnen yn cymryd rhan; caglywd tu allan i'r Co-op o ddydd Mercher hyd fore Sadwrn. Bu aelodau o Capel y Nant yn casglu o ddrws i ddrws mewn rhai strydoedd. Bellach ni ellid casglu mewn tai lle mae sticeri 'No Cold Callers' os nad ydych chi'n nabod y bobl - mae hyn yn gwneud pethau llawer mwy anodd. Does dim croeso ymhob man ac felly mae'r ymdrech a wneir i gasglu i'w ganmol. Eleni hefyd roedd y glaw wedi rhwystro llawer ac ambell gasglwr fel hwyaden ar hyd y strydoedd! Er y storm o amgylch y nos Wener ganlynol trefnwyd taith gerdded gan Helen James a gwelwyd nifer yn cerdded ar hyd y llwybr beicio, ar hyd y gamlas, draw i'r Glais ac yna lawr i Ynystawe a nôl i'r Mond. Roedd yn daith o 4.2 milltir. Mae arian y noddi yn dal i ddod ac mae croeso am gyfraniadau unrhyw bryd. Mae pob rhodd yn golygu bywyd i rywun.



## YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Cyhaliodd Ffair Blanhigion a the mefus llwyddiannus iawn yn Neuadd y Nant o dan nawdd y Guild. Codwyd dros £700. Yn y llun gwelir rhai wrthi yn paratoi'r mefus ac Alan yn cael eu draed wedi mwytho yn y Clinig Traed.



Llongyfarchiadau i fab Pam ac Alan Cram, sef Nigel ar ei benodiad yn Brif Reolwr Busnes yr elusen Emmaus. Mae gan Emmaus saith o siopau yn Ne Cymru, pob un â'i reolwr ei hunan a Nigel yn rheoli'r cyfan. Elusen yw Emmaus sy'n helpu pobl ddigartref, rhai ohonynt gydag anabledd dysgu. Mae'r bobl yma yn byw mewn cymuned ac yn cael bwyd ag ati ond mae'n ofynnol iddynt weithio yn y siopau a'r prosiectau er mwyn dysgu sgiliau a darganfod pwrpas mewn bywyd.

## CAPEL Y NANT

Yn ystod mis Mai gwasanaethwyd gan ein harweinydd Robat Powell, y Parchedigion Llywelyn Picton Jones, Dewi Hughes, Carl Williams a Margaret Jones o Bort Talbot. Ffiniau oedd thema gwasanaeth y Grŵp Addysg o dan ofal Helen James a'r aelodau. Cynhaliwyd dau gwrdd cyfoes gwych iawn o dan ofal Dewi Lewis - Saul, Robert a Chenhadaeth a'r llall o dan ofal Eurig Davies - Y Cylch Naw Milltir - ardal Llanymddyfri a'i emynwyr.

Bu nifer o'r aelodau yn brysur yn ystod y mis yn casglu o stryd i stryd a gyda aelodau o'r eglwysi eraill yn casglu tu allan i'r Co-op. Bu'r rhai mwyaf heini yn cerdded a'r cyfan er mwyn codi arian at Gymorth Cristnogol. Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio drwy bartneriaid mewn gwledydd tlawd. Nid yw arian Cymorth Cristnogol yn mynd i unrhyw lywodraeth. Defnyddir yr arian ar gyfer prosiectau sy'n helpu pobl i helpu eu hunain yn eu cymunedau. Gwelwyd ffilmiau am drybini teuluoedd yn Bangladesh a'r difrod a wneir gan lifogydd. Hefyd gwelwyd y newid wrth iddynt gael help partneriaid Cymorth Cristnogol. Gwelwyd y ffilm am y mwydod a'r modd mae rhoi mwydod yn diogelu bod cymysgu'r mwydod gyda thail gwarhteg yn rhoi pridd addas iddynt i dyfu bwyd. Mae'r cyfan yn edrych yn gamau bach ond gwyddom o brofiad bod pob cam i ddileu tloidi yn gam sy'n werth i'w wneud.

## CYNGERDD

Mae wastad yn braf cael croesawu plant adref ac felly oedd hi pan drefnwyd cyngerdd gan Gwenllian Llŷr, sydd yn gweithio yn yr Academi Frenhinol yn Llundain. Roedd yn achlysur hyfryd iawn a braf oedd gwranddo arni yn perfformio ar y delyn. Blynnyddoedd o brofiad yw'r allwedd i berfformiadau Les Thomas a braf oedd gwranddo arno yn perfformio ar y ffidil i gyfeiliant Janice Walters. Codwyd dros £600 tuag at ein helusennau. Dyma ddigwyddiad olaf y flwyddyn ariannol ar gyfer yr elusennau Peace Direct a Tŷ Croeso. Mae'r casgliad rhydd o Sul i Sul yn mynd tuag at yr elusennau ac yn ystod y flwyddyn rydyn wedi cael sawl digwyddiad i godi arian ond cyn bwysiced â hynny cyfle i gymdeithasu a mwynhau cwmnïaeth ein gilydd. Edrychwn ymlaen i groesawu Grŵp Cristnogol o Fadagascar Ny Ako i oedfa'r bore ar Fehefin 12fed am 10.30. Croeso i chi ymuno â ni yn y gân a'r ddawns.



## BLWYDDYN Y BEIBL BYW

Diolch i John Evans am arwain y gyfres o astudiaethau Beiblaidd fel rhan o weithgarwch y Beibl Byw.

Dymuniadau gorau iddo wrth iddo ddathlu pen-blwydd arbennig ymhell o adre, ond arweinir yr astudiaeth gan Robat ar Fehefin 8fed am 10.30

Mae'r astudiaethau o dan nawdd Cyfundeb Gorllewin Morgannwg, gyda'r Parchedig Ddr Noel Davies, yn parhau. Mehefin 23 fydd y dyddiad y nesaf am 2 o'r gloch yn Neuadd y Nant.



## CYTŪN CLYDACH

Daeth criw bach o'r eglwysi i ddathlu'r Pentecost ar brynghawn braf ym Mharc Coegwilym. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Pam Cram a'r Grŵp Addoli o'r eglwys Fethodistaidd.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Cytŷn Clydach ar Fehefin 28 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Nant.

Yn ystod y dyddiau cyn y Refferendwm trefnir nifer o gyfarfodydd ledled Cymru o dan nawdd yr Eglwys yng Nghymru a Cytŷn o dan yr enw Cwestiwn Ewrop. Fe wahoddir siaradwyr gwahanol i rannu gwybodaeth am yr Undeb Ewropeaidd a gwahaniaethu "ffeithiau oddi wrth daflu baw". Cynhelir yr olaf o dri chyfarfod yn Abertawe. Bydd y panel yn cynnwys yr Athro John Loughlin o Brifysgol Caergrawnt, fynt yn athro Gwleidyddiaeth Ewropeaidd ym Mhrifysgol Caerdydd; y Parchg Ddr Mark Dimond, a fu hefyd yn gweithio

yn Adran Astudiaethau Ewropeaidd Prifysgol Caerdydd; Lila Haines, o Egino, cwmni buddiant cymunedol; a'r Dr Pamela Mason, maethegydd iechyd cyhoeddus. Bydd yn cael ei gynnal yn Eglwys Dewi Sant, Penlle'r-gaer am 7.30 yh ar Fehefin 21ain. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Parchg Gethin Rhys o Cytûn.

## CWMLLYNFELL

### CLEIFION

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr. Dylan Evans, Heol Gwilym, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforys ac i Mrs. Margaret Davies, y Goedlan, sydd adre o'r ysbyty.

### CANMOLIAETH

Mae Jayden Knight, Heol Newydd, ac Iwan Preston, Heol y Bryn yn aelodau o dîm rygbi Cherry, Cwmgors, i blant dan 8 oed. Mae'r tîm wedi cael llwyddiant ysgubol, wedi ennill pob gêm. Aethant i Bournemouth i gystadlu a chipio'r cwpan yno. I goroni'r cwbl, enillon nhw hefyd y twrnaint lleol. Ardechog fechgyn.



### CLWB BOWLIO

Pob lwc i fowlwyr y Clwb ar gychwyn tymor newydd. Os oes diddordeb mae croeso cynnes i chi ymuno â'r Clwb. Bydd y wibdaith flynyddol i Weston eleni yng nghanol mis Mehefin a'r Clwb yn chwarae dwy gêm.

### RYGBI

Ar ôl tymor cythryblus iawn oherwydd y tywydd eithriadol o wlyb rhwng diwedd mis Hydref a chanol Ionawr pan ohiriwyd chwarae o leiaf saith gem (5 gartref ar Barc y Bryn a 2 oddi cartref), roedd gwasgedd aruthrol ar dîm Cwmllynfell i gwblhau'r tymor drwy chwarae'r holl gemau mewn llaw cyn y diwrnod olaf swyddogol. Roedd hyn yn golygu fod tîm Cwmllynfell yn gorfod chwarae bob Sadwrn a phob Nos Fercher am gyfnod o bum wythnos, tasg oedd yn golygu tipyn o straen ar y bechgyn. Ta waeth, fe lwyddwyd i gyflawni hynny er mawr glod iddynt am eu dycnwch a'u dyfalbarhad, a gwelwyd y tîm yn raddol ddringo'r gynghrair gan agosáu at y brig. Uwch eu pennau roedd timau lleol Ystradgynlais a Brynaman; fe basiwyd Ystradgynlais pan drechwyd hwy o 37 pwynt i 23. Nawr roedd Brynaman a oedd yn yr ail safle yn darged i anelu ato, a daeth gêm ola'r tymor yn erbyn Brynaman ar Barc y Bryn ar ddydd Sadwrn Mai 21. Dyma'r ornest

dyngedfennol a fyddai'n penderfynu pa dîm fyddai'n cael dyrchafiad i'r Adran Gyntaf. Roedd yr awyrgylch yn llawn tensiwn a thyrfu niferus ar y Bryn i wyllo'r gêm bwysig hon rhwng y ddau elyn. Yn y chwarter awr gyntaf Brynaman oedd ar y blaen o 6 pwynt i 0, gyda'r gwynt o'u holau. O dipyn i beth gwelwyd Cwmllynfell drwy ymdrechion glew eu blaenwyr yn gwasgu a sgorio 8 pwynt cyn yr hanner amser.

Yn yr ail hanner a'r gwynt wrth eu cefnau, gwelwyd cryfder Cwmllynfell yn dinistrio'r Gwyrddion o Frynaman, a'r canlyniad terfynol oedd Cwmllynfell 22 pwynt i 6 Brynaman - buddugoliaeth haeddiannol, a'r tymor nesaf bydd Cwmllynfell yn ymuno â'r Adran Gyntaf, gan adael Brynaman i frwydro eto yn yr Ail Adran.

## RHOS

Mae Dewi George, mab Huw a May George Maes Rhosyn wedi dyweddio â Jess Wealthall o Aber Llydan, Sir Benfro. Ar hyn o bryd mae'r ddau ohonynt yn byw a gweithio yng Nghaerdydd. Gofnodd Dewi y cwestiwn mawr ar draeth Cricieth tra oeddynt ar eu gwyliau yn y Gogledd a derbyniodd Jess ar unwaith.

### EIRA 1947

Mae Sarah Down-Roberts yn ymchwilio i Storum Eira 1947. Tybed oes rhai o drigolion Cwm Tawe yn ei chofio? Cysylltwch â Dewi Lewis neu Gareth Richards 01792 815152 gyda'ch atgofion.

## CAPEL Y BARAN

ger Rhydyfro, Pontardawe, SA8 4RT

## DARLITH FLYNYDDOL



**Yr actores Rhian Morgan**  
*'Ar ben stôl'*

Nos Fawrth, Mehefin 14, 2016

am 6.30pm

Darperir lluniaeth

Croeso cynnes i bawb

# DIGWYDDIADUR CWM TAWE

## 8 MEHEFIN: PRAM JAM (PARA AM 6 WYTHNOS)

Sesiynau ffirwydd yn dechrau tu fas i Amgueddfa'r Glannau am 10.30y.b. ac yn para 45 munud ar hyd llwybr yr arfordir cyn gorffen yn Kinder Caffi am sgwrs a phaned. Pris yn £2. Am fwy o fanylion ffoniwch 01792 460906.

## 11 MEHEFIN: SBORT SADWRN I BLANT

Caneuon, straeon, crefft, paentio wyneb; dewch draw am fore o hwyl am sbri yn Nhŷ'r Gwrhyd, Pontardawe. 10-12y.b. Croeso i bawb, mynediad am ddim. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Siân ym Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar 01639 763819 neu trwy ifanc@micnpt.org

## 11 MEHEFIN: PARTI DATHLU PENBLWYDD Y FRENHINES YN 90

Cynhelir o 3y.p. ymlaen ar Barc Waverley. Trefnir gan Gyngor Cymuned Clydach.

## 11 MEHEFIN: CYMRU V SLOFACIA

Cyfle i wyllo gêm fawr gyntaf Cymru ym Mhencampwriaeth yr Euro gyda theulu a chyfeillion hen a newydd yn Nhŷ'r Gwrhyd, Pontardawe. Drysau'n agor am 4.30y.p. Mynediad am ddim. Te a choffi ar gael, neu mae croeso i chi ddod â chwrw/gwin eich hun. Danteithion i'r plant.

## 11-16 MEHEFIN: ARDDANGOSFA LLUNIAU DYFRLIW D. WALFORD DAVIES

Galwch yn Pantri Catrin, Clydach.

## 17 MEHEFIN: GIG YR HAF GYDA YSGOL SUL A ARGRPH

Gig yn Nhŷ Tawe, Abertawe, 7.30y.h. Tocynnau yn £4 (£3 i fyfyrwr). Am fwy o fanylion ffoniwch 01792 460906.

## 18 MEHEFIN: TE MEFUS A CHERDDORIAETH GAN CWMTAWE STRINGS

Cynhelir am 2y.p. yn Neuadd y Gymuned Clydach. Trefnir gan Bwyllgor Clydach o Ymchwil Cancr.

## 24 MEHEFIN: TYRFE TAWE – CATRIN HERBERT

Gigs Gwener Tyrfe Tawe yn Nhŷ Tawe, Abertawe, 8y.h. Am fwy o fanylion ffoniwch 01792 460906.

## 27 MEHEFIN: CYFLWYNIAD GAN JAYNE LEWIS O SEFYDLIAD Y GALON

Digwyddiad a drefnwyd gan Ferched y Wawr Pontardawe ac fe'i cynhelir yn Festri Capel Soar Pontardawe am 2 y.p.

## 3 – 9 GORFFENNAF: GŴYL YR IAITH AR DAITH!

Gŵyl Gymraeg newydd ar gyfer Gorllewin Morgannwg sy'n bartneriaeth rhwng Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, Menter Iaith Abertawe a Phartneriaeth Aman Tawe! Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar 01639 763819. Digwyddiadau i gynnwys:

**5ed:** Twrnamaint Pêl-droed yn Ysgol Ystalyfera am 4.30y.p. £2 y pen.

**7fed:** Gwledd o Gomeddi gyda Steffan Alun, Noel James a Jenny Collier yn Nhafarn y Gwachel, Pontardawe am 8.y.h. Mynediad am ddim.

**9fed:** Bryn Fon a'r band yn nhafarn New Inn, Clydach am

7y.h. Pris tocynnau oedolion yn £7 yr un, plant a phobl ifanc o dan 18 yn £3 yr un. Barbeciw ar gael yn ychwanegol at bris y tocyn.

## POB NOS FAWRTH - CÔR DATHLU CWMTAWE MALE CHOIR

Ymarfer o 7 p.m. i 9 p.m. yn Neuadd Eglwys Sant Cynog, Ystradgynlais. Croeso cynnes i bawb.

## POB BORE DYDD MAWRTH: GRŴP TI A FI

Cynhelir yn Neuadd y Nant, Clydach rhwng 9 – 11y.b.

## POB BORE MERCHER: CYLCH CANU YSGOL Y CRIBARTH

Grwp i rieni a phlant bach gyda chaneuon a straeon a chrefftau rhwng 8.50 a 10.15y.b. yn Ysgol y Cribarth, Abercraf. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Siân ym Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar 01639 763819 neu trwy ifanc@micnpt.org

## POB NOS FAWRTH: TWRW TAWE

Cyfle gwych i bobl ifanc ganu, perfformio a chymdeithasu trwy'r Gymraeg. Mae pobl ifanc blynyddoedd 4 i 9 yn cyfarfod rhwng 18.30y.h. a 20.00y.h. tra bod pobl ifanc Blwyddyn 10 ac uwch yn cwrdd rhwng 8 a 10 yr hwyr yn Festri Tabernacl, Treforys. Ffoniwch 01792 460906 am fwy o fanylion.

Croeso i chi anfon manylion eich digwyddiadau at y *Llais* er mwyn iddynt gael eu rhestru yma a chael sylw eich cyddarllenwyr. Cysyllter â Gwenno Ffrancon ar 01792 842062 neu [gwenno\\_ffrancon@hotmail.com](mailto:gwenno_ffrancon@hotmail.com)

# Cigyddion Ponty Butchers

71 Herbert Street  
Pontardawe

Telephone:  
01792 863197

**Llawer i'w gynnig gan eich  
Cigydd Llwyddiannus**



Gwir Flas

Cymru y

Dewch i'n gweld



# Thomas Levi, 1825-1916

Eleni yw canmlwyddiant marwolaeth Thomas Levi yn 1916 ac felly mae'n briodol ein bod yn cofnodi ei gyfraniad lleol a chenedlaethol. Cyflawnodd waith rhyfeddol yn ystod ei fywyd hir. Dywedodd Wordsworth "the child is father of the man" ac felly wrth sylwi ar blentyndod Levi yma yng Nghwm Tawe cawn gipolwg ar yr hyn a ddylanwadodd ar un o gewri ein cenedl.

Mae'r hanes yn cychwyn gyda mamgu Thomas, sef Mip Phillips o Gaerfyrddin. Gweithiodd Mip yng nghegin gwr o'r enw Turkville yng Nghilybebyll. Rywsut daeth i gysylltiad â Michael Levi, Iddew o Abertawe. Ymhen ychydig deallwn fod Mip yn disgwyl plentyn gan Levi ac mae'n orfodol iddi adael cartref Turkville gan ei gadael yn ddi-gartref. Aeth i Abertawe, efallai i chwilio am Levi ond ni chafodd groeso yn unman. Treuliodd y noson oer honno, yn unig, mewn adeilad gwag tan i gi mawr ddod a gorwedd wrth ei thraed a'i chadw'n gynnes. Yn y bore cerddodd i fyny'r cwm a chyrraedd Ystradgynlais a chael lloche gyda hen wraig ac yno y ganwyd mab iddi, John Levi yn 1781. Gan nad oedd modd ariannol gan Mip i ofalu am ei phlentyn cymerwyd at y cyfrifoldeb gan Llewelyn Jeffries, Ystradfawr ac yno y magwyd John Levi.

Yn 31 mlwydd oed priododd John a Prudence Lewis, fferm Maes-mawr, ger y Creunant. Teulu crefyddol oedd teulu Maes-mawr ac yn addoli yng nghapel Godre'r rhos. Sefydlodd y pâr ifanc eu cartref ym Mhen-rhos (rhwyng ffermydd Waunton a Wern Gyrlais) bwthyn llwm, un ystafell gydag ysgol i gyrraedd y crogloff ac yma yn ddiweddarach y cysgai'r teulu o naw.

Mae Thomas Levi yn canmol ei dad fel crefftwr medrus, yn gallu troi ei law at bron popeth. Medrai gyfansoddi caneuon, rhai ar gyfer y dafarn, eraill i briodas. Ni fedrai ddarllen ac yn anffodus byddai'n meddwi'n aml a gadawodd hwn argraff ddofn ar y mab. Byddai'n syrthio'n aml i'r gamlas gan wario sawl noson gwlyb yn y clawdd. Ceisiodd Prudence ei ddysgu i ddarllen y Beibl ond araf a thrwsgrl oedd y cynnydd. Mynychai gapel Yorath pob nos Sul gan wrando'n astud ar y bregeth. Yn 60 oed trodd ei gefn ar y ddiad gadarn gan ofyn i'r Parchg John Walters nodi ei enw yn llyfr dirwest Yorath gan ychwanegu'r

lythyren "o" dair gwaith ar ôl ei enw:

"O! Diolch am gael ymuno â'r Gymdeithas.  
O! na buaswn wedi dyfod ynghynt.  
O! am nerth i ddal."

Roedd Prudence yn wahanol iawn i'w gŵr. Medrai ddarllen ac yn sicr dysgodd ei phlant ac mae Thomas yn cofio cerdded gerfydd dwylo ei mam i Yorath pob Sul ar hyd yn gamlas.

Yn hwyrach symudodd y teulu o Ben-rhos i fythynnod Ystrad-fawr. Bu farw dwy chwaer Thomas Levi yn ifanc ac yn 1850 ymfudodd y teulu i America. Arhosodd Thomas a bu'n gweithio fel mowldiwr yn Ynysgedwyn. Bu farw John Levi yn Wilkesbarre, Pennsylvania yn 1853 a Prudence yn Danville yn 1861.

Ni chafodd Thomas Levi addysg ffurfiol o werth. Pan yn saith oed talodd y ficer lleol, Timothy Davies bum swllt drosto am addysg yn ysgol y plwyf. Hen filwr o'r enw Robert Jones, "y Northman" oedd yr athro. Bu'n cadw siop ond methodd y busnes, trodd at y botel a byddai'r plant yn ei lusgo o'r Mason's Arms yn feddw er mwyn cael ychydig addysg.

Roedd yn gyffredin y dyddiau yna i blant ifanc y cyfnod yma ddechrau gweithio naill ai yn y gweithfeydd glo neu haearn ac i Ynysgedwyn yr anfonwyd Thomas.

Dylanwad mawr ar y Thomas Levi ifanc oedd gweinidog brwdfrydig Yorath, Cwmgiedd ac yma y derbyniodd Thomas ei addysg elfennol, yn yr Ysgol Sul a'r Gobeithlu ac wrth wrando pregeth a bod yn rhan o seiat.

Yn ôl yr hanes, yn 15 oed, cerddodd Thomas Levi yr holl ffordd i Langeitho i wrando ar bregeth yn ystod Sasiwn yno. Mae'n siwr bod gor-yfed yn broblem yn y cylch a dechreuodd Thomas Levi bregethu dirwest. Cafodd brofiadau uniongyrchol gyda'i dad a'i athro yn meddwi a bu Thomas yn ddirwestwr gydol ei oes.

Yn ddiweddarach agorodd Ysgol Nos ac yna'r Llythyrdy cyntaf yn Ystradgynlais. Deuai pobol ato am gyngor i ysgrifennu llythyr neu am gymorth gyda chadw cyfrifon. Yn y cyfnod yma y priododd Thomas, ugain oed, ag Elizabeth, Daniel, gweddw 40 oed. Agorwd siop groser ganddynt a gwahoddwyd Thomas i ofalu am Gapel yr Ynys yn 1855 ac fe'i ordeiniwyd yn weinidog cyflogedig yn ddiweddarach ganddynt.

**John Williams**

*I'w barhau*

## GŴYL YR IAITH AR DAITH 3 – 9 GORFFENNAF

Gŵyl Gymraeg newydd ar gyfer Gorllewin Morgannwg sy'n bartneriaeth rhwng Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, Menter Iaith Abertawe a Phartneriaeth Aman Tawe! Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar 01639 763819. Digwyddiadau i gynnwys:

**5ed: Twrnaint Pêl-droed** yn Ysgol Ystalyfera am 4.30y.p. £2 y pen.

**7fed: Gwledd o Gomedï** gyda Steffan Alun, Noel James a Jenny Collier yn Nhafarn y Gwachel, Pontardawe am 8.y.h. Mynediad am ddim.

**9fed: Bryn Fon a'r band** yn nhafarn New Inn, Clydach am 7y.h. Pris tocynnau oedolion yn £7 yr un, plant a phobl ifanc o dan 18 yn £3 yr un. Barbeciw ar gael yn ychwanegol at bris y tocyn.



# Gwenallt fel Gwrthwynebydd Cydwybodol

**Mae llawer o ddirgelwch a chryn dipyn o ddryswch wedi bod erioed ynglŷn â hynt a hanes Gwenallt fel gwrthwynebydd cydwybodol rhwng Mai 1917 a Mai 1919. Mae Alan Llwyd wedi llwyddo i ddatrys y dirgelwch trwy ddarganfod sawl tystiolaeth newydd sbon.**

Pymtheg oedd oedd Gwenallt pan gyhoeddodd Prydain ryfel yn erbyn yr Almaen ar ddechrau Awst 1914. Cwm diwydiannol, Anghydfurfiol oedd Cwm Tawe yn y cyfnod hwnnw, nythle sosialaeth, noddfa comiwnyddiaeth. O safbwynt sosialaeth, rhyfel yr ymerodraethau mawrion, cyflafan y cyfalafwyr, yn ei hanfod, oedd y rhyfel i ddod; ac o safbwynt crefyddol, roedd pob rhyfel yn wrthun ac yn gwbl groes i gredoau a gwerthoedd sylfaenol Cristnogaeth, ac yn drosedd yn erbyn dynoliaeth yn gyffredinol. Sut y byddai trigolion y cwm yn ymateb i'r rhyfel? A fyddai'r eglwysi a'r capeli yn gwrthwynebu rhyfel, a beth fyddai safbwynt swyddogol papur sosialaidd y cwm, *Llais Llafur*?

Er mawr siom i sosialwyr mwyaf eithafol y cwm, penderfynu cefnogi'r rhyfel a wnaeth *Llais Llafur* yn y pen draw. Aelodau o'r Blaid Lafur Annibynnol oedd sosialwyr mwyaf eithafol Cwm Tawe. Er ei bod yn rhan o'r Blaid Lafur, roedd y Blaid Lafur Annibynnol yn cael cadw peth o'i hannibyniaeth, ac yn cael trefnu ei gweithgareddau a'i chynadleddau ei hun. Roedd cryn dipyn o straen a thyndra ar adegau rhwng y ddwy blaid. Tra oedd y Blaid Lafur Annibynnol yn llawer rhy eithafol gan y Blaid Lafur, roedd y Blaid Lafur yn llawer rhyddfod a chymredrol gan y Blaid Lafur Annibynnol.

Un o aelodau mwy brwd ac anhyblyg y Blaid Lafur Annibynnol yng Nghwm Tawe oedd gŵr ifanc o'r enw Griffith Davies. Erbyn troad yr ugeinfed ganrif roedd dwy fil a rhagor o ddynion yn gweithio yn y gweithfeydd dur a thinplad ac yn y glofeydd yng Nghwm Tawe, ac roedd siopau'r ardal yn ffynnu yn sgil y bwrlwm gweithgarwch hwn. Ym 1911, agorwyd siop ddillad ar groesffordd Pontardawe gan Griffith Davies, sef siop Bridge House, ar ôl iddo dreulio nifer o flynyddoedd ym Merthyr Tudful. Fel gweddill aelodau'r teulu, Rhyddfrydwr a Bedyddiwr oedd Griffith, nes i ddaliadau a safbwyntiau gwleidyddol Keir Hardie ddylanwadu'n drwm arno, ac ymunodd â'r Blaid Lafur Annibynnol. Bu un o frodyr Griffith Davies, Albert Davies, yn ddisgybl yn Ysgol y Gynradd yr Allt-wen ar yr un pryd â Gwenallt, a bu'r ddau yn gyfeillion agos byth wedi hynny. A thrwy Albert Davies a'i deulu yn bennaf y daeth Gwenallt yn aelod o'r Blaid Lafur Annibynnol. Mynychai gartref rieni Albert ym Mhontardawe yn ogystal â siop Bridge House, ac yn y lleoedd hyn y daeth yn ymwybodol o natur ddigyfaddawd y Blaid Lafur Annibynnol, yr unig blaid wleidyddol a oedd o ddiifri yn gefnogol i'r gweithiwr.

Byddai Gwenallt wedi anwybyddu'r rhyfel orau y gallai ac wedi bwrw ymlaen â'i addysg ond am un peth. Y Ddeddf Gwasanaeth Milwrol oedd yr un peth hwnnw. Pasiwyd Deddf Gwasanaeth Milwrol yn Nhŷr Cyffredin ar Ionawr 24, 1916, a byddai'r ddeddf newydd yn dod i rym ar ddechrau Mawrth. At

ddynion dibriad a gwŷr gweddw yn unig yr anelid y ddeddf hon, nid at ddynion priod. Gorfodid dynion ieuainc a oedd rhwng 18 a 41 oed ar Awst 15, 1915, i ymuno â'r Lluoedd Arfog gan y ddeddf hon. Ni fyddai'r ddeddf newydd hon yn amharu ar Gwenallt tan fis Mai 1917, pan fyddai'n cael ei ben-blwydd yn ddeunaw oed, er y byddai gofynion y ddeddf wedi newid rywfaint erbyn hynny. Unwaith y daeth y Ddeddf Gwasanaeth Milwrol i rym, dechreuwyd trefnu cyfres o gyfarfodydd protest yng Nghwm Tawe i wrthwynebu'r ddeddf ac i alw am ei diddymu.

Adnewyddwyd cyfeillgarwch bore oes Gwenallt ac Albert Davies ym 1916 pan gynghorwyd Gwenallt gan y Parchedigion Llewelyn Bowyer a W. J. Rees i alw heibio i Griffith, brawd Albert, yn Bridge House, gan mai Griffith a ofalai am faterion a llenyddiaeth y No-conscription Fellowship, y Gymdeithas Wrth-orfodaeth, yn y cwm. Roedd Llewelyn Bowyer a W. J. Rees yn aelodau blaenllaw o'r ddwy gymdeithas heddychlon a gwrth-filitaraidd, Cymdeithas y Cymod a'r Gymdeithas Wrth-orfodaeth, yng Nghwm Tawe. Roedd gan Gwenallt barch mawr at y ddau weinidog heddychlon hyn.

Ymaelododd Gwenallt â'r Blaid Lafur Annibynnol, a daeth i adnabod arweinwyr a chefnogwyr y Blaid yng Nghwm Tawe – trwy Albert Davies. Roedd brodyr Albert Davies, yn ogystal ag Albert ei hun, yn aelodau brwd a blaenllaw o'r Blaid Lafur Annibynnol. Ymunodd Albert â'r busnes wedi iddo adael yr ysgol yn 17 oed. Daeth siop Griff Davies, Bridge House, yn fan cyfarfod i aelodau'r Blaid Lafur Annibynnol ac i wrthwynebwyr cydwybodol yn y cwm.

Mae hanes Gwenallt yn ystod y ddwy flynedd rhwng Mai 1917 a Mai 1919 yn gymhleth ac yn annelwig. Bu llawer o geisio dyfalu beth a ddigwyddodd iddo yn ystod y ddwy flynedd hyn. Y ddamcaniaeth fwyaf poblogaidd yw'r un sy'n derbyn iddo dreulio'r ddwy flynedd ar eu hyd yn garcharor, ac ar Gwenallt ei hun, i raddau, yr oedd y bai am hyrwyddo'r ddamcaniaeth hon. Derbyn a dilyn yr hyn a ddywedir yn ei nofel hunangofiannol, *Plasau'r Brenin*, yn rhy lythrennol-glôs a achosodd y dryswch. Cynhelir y llys milwrol yn y nofel ar Fai 20, ddeuddydd ar ôl pen-blwydd Gwenallt yn ddeunaw oed. Roedd Myrddin Tomos eisoes wedi treulio o leiaf dridiau yng ngharchar y gwersyll milwrol, felly, pe bai *Plasau'r Brenin* yn ffeithiol gywir, byddai Gwenallt wedi ymddangos gerbron y tribiwnlys lleol ac wedi cael ei drosglwyddo i garchar milwrol cyn iddo gael ei ben-blwydd yn ddeunaw, ac fe fyddai wedi cymryd wythnosau, os nad misoedd, i'w wysio o flaen tribiwnlys a llys milwrol. 'Meddylwch am gael dwy flynedd o garchar, ac ar ôl hynny, dod yn ôl i'r gwersyll a chael dwy flynedd arall, a dod yn ôl yma wedyn, ac yn y blaen, *ad infinitum*,' meddai Myrddin Tomos yn *Plasau'r Brenin*; fe'i dedfrydir i ddwy flynedd o garchar gyda llafur caled gan y llys, a dyna sail y ddamcaniaeth fod Gwenallt wedi treulio dwy flynedd yn y carchar o fis Mai 1917 ymlaen. 'Dyma fy nghartre am ddwy flynedd,' meddai Myrddin Tomos, ymhellach ymlaen yn y nofel, ac ar ddydd ei ryddhau o'r carchar, mae'n sylwi ar y dyddiad ar almanac desg ceidwad y carchar: 'yr ugeinfed o fis Mai, yn y flwyddyn 1919'. 'Bûm am ddwy flynedd

mewn carchar a phymtheng mlynedd mewn llety,' meddai Gwenallt mewn llythyr at Idwal Jones ym mis Tachwedd 1935, ond nid fel yna y digwyddodd pethau, fel y gwyddai Gwenallt yn well na neb. Ond ymhle yn union y bu Gwenallt am y ddwy flynedd?

Er mai ym mis Mai yr oedd Gwenallt yn troi'n ddeunaw, roedd yn dal i fod â'i draed yn rhydd ym mis Awst 1917. Ar Awst



Gwenallt a Albert Davies



Siop Bridge House

20 anfonodd lythyr at Kate Roberts, ac o Bontardawe yr anfonwyd y llythyr hwnnw, nid o unrhyw garchar. Collodd Kate Roberts ei brawd, David neu Dei, wedi i ffrwydrad bom ei glwyfo'n ddrwg pan oedd yn gwasanaethu gyda'r fyddin yn Salonica. Bu farw yn Ysbyty Milwrol Imfarfa yn Malta ar Oффennaf 27, 1917. Llythyr yn cydymdeimlo â'i athrawes ar farwolaeth ei brawd oedd y llythyr hwnnw a anfonodd Gwenallt at Kate Roberts ar Awst 20. Wyth niwrnod ar ôl iddo ysgrifennu ei lythyr at ei gyn-athrawes, roedd Gwenallt yn ymddangos gerbron y tribiwnlys a fyddai yn selio'i dynged ac yn ei yrru o'r cwm.

Gwysiwyd Gwenallt gerbron Tribiwnlys Pontardawe a'r Cylch ar Awst 28, 1917. Gwenallt oedd y 'Pontardawe assistant teacher' a oedd ymhlith yr achosion – 14 ohonynt – y gwrthodwyd rhoi esgusodiad iddynt, yn ôl *Llais Llafur*. Wedi i'r tribiwnlys ym Mhontardawe wrthod ei ryddhau rhag gorfod cyflawni gwasanaeth milwrol, aethpwyd â Gwenallt i Abertawe, a threuliodd un noson o leiaf yng Ngharchar Abertawe, gan rannu cell â gwrthwynebydd cydwybodol arall o Gwm Tawe, Thomas Rhys Davies o Ynysmeudwy. Trosglwyddwyd y ddau wedyn i ddwylo'r awdurdodau, a bu'n rhaid iddynt sefyll eu prawf mewn llys milwrol, er na wyddys ymhle y cynhaliwyd y llys hwnnw. Anfonwyd y ddau i garchar Wormwood Scrubs yn Llundain.

Y mae un peth yn sicr: yn Wormwood Scrubs yr oedd Gwenallt erbyn mis Hydref 1917. 'Cofiaf un noson mewn carchar yn Llundain glywed y celloedd yn crynu gan orfoledd "The Red Flag" a'r "Internationale" am i'r newydd gyrraedd am y chwyldroad yn Rwsia,' meddai yn ei ysgrif 'Credaf'. Cyfeirio at Chwyldro'r Hydref yn Rwsia ym 1917 a wneid yma.

Ar Awst 28, 1917, yr ymddangosodd Gwenallt gerbron y tribiwnlys hwnnw ym Mhontardawe a wrthododd roi esgusodiad iddo a'i drosglwyddo i garchar Abertawe. Yn fuan wedyn fe'i hanfonwyd i garchar Wormwood Scrubs. Mwy na thebyg iddo dreulio 112 o ddyddiau o lafur caled yno, yn ôl y drefn, cyn iddo gael ei ryddhau – dros dro. A barnu iddo gyrraedd Wormwood Scrubs ym mis Medi 1917, byddai wedi treulio 112 o ddyddiau yno – bron i bedwar mis – erbyn dechrau'r flwyddyn newydd, 1918, ac mae'n debyg mai dychwelyd i Gwm Tawe a wnaeth wedi hynny. Y cam nesaf ar ran yr awdurdodau fyddai ei wysio gerbron tribiwnlys arall, gan obeithio y byddai'r cyfnod a dreuliasai yn y carchar wedi gwanhau ei ewyllys yn y fath fodd nes y byddai'n barod i gynnig ei wasanaeth i'w wlad yn rhwydd ddigon.

Cynhaliwyd y tribiwnlys hwnnw ym Mhontardawe ar ddydd Mawrth, Mawrth 26, 1918. Yn ôl rhan o adroddiad *Llais Llafur* ar yr achos:

Asked what he was prepared to do if his mother and sister were subjected to the violence of the Germans, applicant said he was not in a position to answer the question.

Mr. Charles: What would you do if the Germans ravished your mother and sister in the same way as was done in Belgium?

Applicant: Nothing.

How long have you held these lofty ideals? – Since my intelligence has become broad enough.

Applicant again said that war was contrary to the teachings in the Sermon on the Mount.

Mr. Charles: How do you say that?

Applicant: Because it says there to love our enemies.

Do you love your enemies? – Yes.

Mr. Charles: Really you ought not to be on this earth. You ought to be in heaven.

Letters were put in from the Revs. W. J. Rees, Alltwen, and Llew. Boyer [sic], Alltwen, testifying that the applicant was a genuine conscientious objector ... The majority however, decided in favour of refusing the application.

'Llenyddiaeth y caem flas ar ei darllen yn y cyfnod hwnnw,' meddai Gwenallt yn 'Credaf', gan gyfeirio at flynyddoedd ei

lencyndod, 'oedd llenyddiaeth Rwsia, llyfrau Tolstoi a Dostoievski'. Edmygai Tolstoi am y rheswm ei fod yn ymosod 'ar ddiwinyddiaeth a dogmâu'r Eglwys yn Rwsia, ar ei harallfydrwydd, a seilio ar y Bregeth ar y Mynydd efengyl gymdeithasol ac athrawiaeth wleidyddol y gellir eu galw yn anarchiaeth Gristionogol'. 'Ganddo ef y dysgasom basiffistiaeth,' meddai drachefn.

Felly, roedd Gwenallt yn wynebu carchariad arall ym mis Mawrth 1918, ond mae bwlch yn ei hanes ar ôl y tribiwnlys. Yna, ceir yn nodyn hwn yn *Llais Llafur* ar ddechrau mis Gorffennaf: 'David Jones, Alltwen, was arrested at Pontardawe on Tuesday and conveyed on Wednesday to Swansea as an absentee under the Military Service Act'. Y trydydd o Oффennaf oedd y dydd Mercher y cyfeirir ato. Mae 'absentee' yn awgrymu ei ei fod wedi dianc i rywle o afael yr awdurdodau militaraid i osgoi cael ei anfon i'r carchar eto, ond i ble? Taflwyd peth goleuni posibl ar symudiadau Gwenallt yn ystod y tri mis y bu'n absennol gan D. J. Williams. Roedd Gwenallt, meddai yn 'Gair o Goffa am Gwenallt a'i Gefndir' yn *Barn* ym mis Ionawr 1969, pan oedd 'yn llanc ysgol deunaw oed yn llochesu gyda'i berthynasau 'yn y Gelli, yn Tir-bach, ac yn Esgerceir' fel ffoadur, 'On the run', wrth geisio dianc rhag i'r gyfraith gael gafael arno, a'i roi yn un o 'Blasau'r Brenin' fel gwrthwynebwyr cydwybodol, yn nyddiau creulon y Rhyfel Byd Cyntaf'.<sup>1</sup> Yn ôl y goel leol yng Nghwm Tawe, wrthi'n helpu i gywain y gwair ar fferm Allt-wen Ganol ar Dyle Allt-wen yr oedd Gwenallt pan gafodd ei arestio, ac y mae hynny, o ran amseriad, yn cyfateb i'r ffaith iddo gael ei arestio ar ddechrau Gorffennaf 1918. I garchar Dartmoor yr anfonwyd Gwenallt ar ôl iddo gael ei arestio ym Mhontardawe, ac yno y bu hyd at fis Ebrill 1919 – gydag un toriad yn y canol, fel yr eglurir isod. Ar Ebrill 19, 1919, y rhyddhawyd y gwrthwynebydd cydwybodol olaf o Dartmoor, felly, roedd Gwenallt wedi cael ei ollwng yn ôl i'r byd cyn Ebrill 19, 1919.

Derbyniodd Albert Davies lythyr gan Gwenallt rywbryd cyn Nadolig 1918, yn nodi, ymhlith pethau eraill, iddo gael ei ollwng yn rhydd o Dartmoor, a'i fod bellach yn byw yn Mulberry House ym mhentref Fordham yn Swydd Gaergrawnt, ac yn torri coed, eto fel rhan o gynllun y Swyddfa Gartref:

Four of us are now located in billets and one of them is a Welsh miner from Ammanford, and the other two are Scotchmen. Our present occupation is timber-felling and one good thing about it is that our fore-man is otherwise occupied so that he cannot de[vote] all his time and attention to us.

Ac nid oedd yn edifar ganddo iddo ddewis carchar yn lle rhyfel:

As you say the experience of prison life has only deepened my convictions and shown more clearly those magnificent ideals which you and others share in regenerating society and ameliorating the conditions of the down-trodden working class. As you say also we must do with all power to advocate the total abolition of the prison system as an absurd and futile system of reforming persons.

Priodwyd chwaer Albert ar fore dydd Sul, Rhagfyr 8, 1918, ac roedd y rhyfel wedi dod i ben ers rhyw fis erbyn hynny, ond y carcharorion yn aros. Roedd Gwenallt yn Fordham ar y pryd, a gobeithiai y gallai dreulio Nadolig 1918 gartref gyda'i rieni yn yr Allt-wen.

Cadwyd Gwenallt yng ngharchar Dartmoor hyd at fis Ebrill 1919, bron i chwe mis wedi i'r rhyfel ddirwyn i ben. Ceir ei lofnod y tu mewn i glawr llyfr a ddarlentasai yn y carchar, *Socialism and the Bible*, a'r dyddiad Ebrill 1919 o dan ei enw. Ni faddeuwyd i'r gwrthwynebwyr cydwybodol am wrthod ymladd yn awr angen ac argyfwng Prydain Fawr, ac nid oedd yr awdurdodau ar unrhyw frys i'w rhyddhau o'r carchar. Trwy estyn cyfnod eu carchariad, rhôir Swyddfa Gartref fisoedd o fantais i'r rhai a oedd wedi ymladd dros frenin a gwlad i ddod o hyd i swyddi.